

# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Ionawr 2012

Rhif 418

50c

## Blwyddyn Newydd Dda!

### Canolfan Hamdden Plas Ffrancon

**Y**N ddiweddar bu'r Ganolfan yn fuddugol mewn cystadleuaeth i dros 250 o ganolfannau drwy Brydain. Mae'r wobwr yn seiliedig ar welliant mewn perfformiad dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Bu Bethan Moore, Rheolwraig y Ganolfan, yn y seremoni wobrwyo yn Blackpool – seremoni a gynhaliwyd gan y cwmni monitro perfformiad (APSE), a derbyniodd y wobwr gan un o sêr *Coronation Street*, sef Samia Gharda (Maria).

Hoffai Bethan ddiolch i'r staff i gyd am eu cefnogaeth ac am y gwaith galed a wnaed er mwyn i gallu ennill y wobwr yma; hefyd i'r cwsmeriaid ffyddlon sydd yn cadw'r Ganolfan i fynd – a hynny o nerth i nerth. Bydd y tlws yn cael ei arddangos yn y Ganolfan yn fuan.



Ar y llwyfan yn derbyn y wobwr: Samia Gharda, Alan Hughes (pennaeth Hamdden), Bethan Moore, Ffion Williams (Swyddog Cefnogi Busnes), Brian Evans (Swyddog Hamdden) a Noddwr y wobwr.

Dywedodd y Cynghorydd Roy Owen, sy'n arweinydd hamdden ar Gyngor Gwynedd:

"Mae hyrwyddo chwaraeon a hamdden yn hynod bwysig i Gyngor Gwynedd ac rydym wedi ymrwmo i wneud y gorau o'r cyfleusterau sydd yn y sir.

"Rydym yn falch iawn o'r hyn y mae tîm Canolfan Hamdden Plas Ffrancon wedi ei gyflawni ac 'rwyf yn llongyfarch y staff am eu gwaith caled o ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i drigolion Dyffryn Ogwen."

Ychwanegodd Alan Hughes, Pen Swyddog Hamdden Cyngor Gwynedd:

"Rydym wrth ein boddau bod Canolfan Hamdden Plas Ffrancon wedi derbyn y wobwr fawr yma sy'n gydnabyddiaeth o waith caled y staff. Mae hyn yn dangos y gall trigolion Gwynedd deimlo balchder wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hamdden ac 'rydym yn gobeithio y bydd pobl y sir yn gwneud yn fawr o'r cyfleusterau gwych sydd ar gael yn holl ganolfannau hamdden y Cyngor."

Am ragor o wybodaeth am ganolfannau hamdden Cyngor Gwynedd, ewch i: [www.gwynedd.gov.uk/canolfannauhamdden](http://www.gwynedd.gov.uk/canolfannauhamdden)

### Cyngerdd Lansio

#### CD Newydd

#### Côr y Penrhyn

Capel Jerusalem, Bethesda

Nos Sul, 19 Chwefror

am 7.30 pm.

gyda

**Rhys Meirion**

**John Ogwen**

**a Chôr y Dyffryn**

Tocyn: £7.00

### Diolch am Ymroddiad

Deallwn fod Mrs Elina Owen, Y Wernos, yn dymuno cael ei rhyddhau o'i dyletswyddau fel un o olygyddion Llais Ogwan. Bu Mrs Owen yn golygu'r Llais dros nifer helaeth o flynyddoedd yn ei thro, ac ar ran y Panel Golygyddol, y Pwyllgor, a'r holl ddarllenwyr, diolchwn yn fawr iawn iddi am ei gwaith caled, a'i hymroddiad dros gyfnod maith.

Pob dymuniad da i chwi, Elina, ar eich 'ymddeoliad', ond gobeithiwn y gwnewch barhau i'n diddori gyda'ch adroddiadau manwl am weithgareddau Merched y Wawr, Bethesda, a'r Eglwys Unedig yn Jerusalem.

Yr un pryd, 'rydym yn croesawu Dewi Llewelyn Siôn, Erw Las, i'r Panel Golygyddol, ac yn dymuno pob llwyddiant iddo pan fydd yn ymgymryd â'r gwaith.

### Côr y Dyffryn

Cynhelir ymarfer yn festri Capel Jerusalem nos Sul, 22 a 29 Ionawr am 6.15 i baratoi ar gyfer Cyngerdd Lansio CD Côr y Penrhyn ar nos Sul 19 Chwefror 2112.

# Llais Ogwan

## PANEL GOLYGYDDOL

<b>Derfel Roberts</b>	☎ 600965
hylaw@btinternet.com	
<b>Ieuan Wyn</b>	☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk	
<b>Lowri Roberts</b>	☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com	
<b>Dewi Llewelyn Siôn</b>	☎ 600274
dewision@btinternet.com	
<b>Fiona Cadwaladr Owen</b>	☎ 601592
Fiona@fowen.wanadoo.co.uk	
<b>Siân Esmor Rees</b>	☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com	
<b>Emlyn Evans</b>	☎ 600501
emlynevans@live.co.uk	
<b>Neville Hughes</b>	☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com	
<b>Dewi A Morgan</b>	☎ 602440
dewimorgan@fsmail.net	
<b>Dafydd Fôn Williams</b>	☎ 601583
dafydd@gerlwn.wanadoo.co.uk	
<b>Walter W Williams</b>	☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk	

## SWYDDOGION

### Cadeirydd:

André Lomozik, Zakopane,  
7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Bangor,  
Gwynedd LL57 3NW ☎ 602117

### Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,  
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

### Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,  
3 Sgwâr Buddug, Bethesda  
LL57 3AH ☎ 601415  
garethllwyd197@btinternet.com

### Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub,  
Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872

### Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda,  
Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184

## Golygydd y Mis

Golygwyd y rhifyn hwn gan Lowri Roberts a Walter Williams. Golygydd mis Chwefror fydd Neville Hughes, Bryn Frydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda LL57 3PA 01248 600853  
nev\_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 1 Chwefror os gwelwch yn dda. Plygu nos lau, 16 Chwefror yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

Cydnabyddir  
Cefnogaeth



BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG

## DYDDIADUR Y DYFFRYN

### Ionawr 2012

- 21 Bore Coffi Cyfeillion Ysgol Abercaseg. Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- 23 Te Bach, Festri Carmel Llanllechid, 2.30 - 4.00
- 26 Merched y Wawr Bethesda, Cefnfaes am 7.00
- 28 Bore Coffi, Canolfan Rachub, Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- 31 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen, Cefnfaes am 7.00

### Chwefror

- 05 Bore Coffi Eisteddfod yr Urdd Eryri, Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- 08 Merched y Wawr Tregarth, Festri Shiloh Geraint Thomas, Ffotograffydd 7.00
- 11 Marchnad Cynnyrch Lleol Ogwen, Ystafell Fawr Capel Jerusalem 10.00 - 12.00
- 11 Bore Coffi Cymd. Cŵn Tywys i'r Deillion, Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- 13 Cymd. Hanes Dyffryn Ogwen. Dr J Elwyn Hughes. Festri Jerusalem am 7.00
- 15 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen, Cefnfaes am 7.30
- 18 Bore Coffi Eglwys Glanogwen Neuadd Ogwen. 10.00 - 12.00
- 19 Cyngerdd Lansio CD Côr y Penrhyn, Rhys Meirion, John Ogwen a Chôr y Dyffryn. 7.30
- 21 Te Crempog. Eglwys y Gelli Tregarth 2.00 - 4.00
- 21 Merched y Wawr Bethesda. Dathlu Gŵyl Ddewi. Cefnfaes am 7.00
- 23 Bore Coffi Plaid Cymru Dyffryn Ogwen, Neuadd Ogwen 10.00 - 12.00
- 25 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00
- 27 Cyfarfod Blynnyddol Plaid Cymru Llŷr Hughes Gruffydd, Neuadd Ogwen am 7.00

### Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan

Cysodwyd gan **Tasg**,  
Gorffwysfa, Sling, Tregarth  
LL57 4RJ ☎ 07902 362 213  
**post@tasg.co.uk**

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon,  
Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY  
☎ 01248 601669

**Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

### Gwobrau Mis Ionawr

- £30 (188) Mrs A. Ray Davies,  
9 Heol Ifor, Caerdydd.
- £20 (90) Mrs Carys Williams,  
12 Tal y Cae, Tregarth
- £10 (14) Mrs Evelyn Lupson,  
Pensby, Wirral
- £ 5 (137) Mrs Joan E. Griffith,  
15 Glan Ffrydlas, Bethesda.

## Golygyddol

Cyn y Nadolig fe benderfynodd aelodau'r Cynulliad eu bod am osod pob ysgol uwchradd yng Nghymru mewn un o bump band – yn seiliedig yn bennaf ar ganlyniadau arholiadau allanol yr ysgol, ond hefyd ar ansawdd a chefnidir y disgyblion, a'r cynnydd a wnant yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Ystyrir hefyd y cynnydd y mae'r ysgol wedi ei wneud dros y tair blynedd ddiwethaf. Er nad yw'r dulliau yma o farnu ysgol yn rhoi darlun llawn o'r gwaith a gyflawnir mewn ysgol, mae'n bleser gennym gael cyhoeddi fod Ysgol Dyffryn Ogwen wedi cael ei gosod ar frig band 2, sydd yn golygu ei bod yn un o ysgolion gorau Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr i'r Pennaeth a'r Staff am eu gwaith caled, ac am barhau i gynnal safonau uchel wrth ddarparu addysg i blant a phobl ifainc y Dyffryn. Yr un yw ein canmoliaeth i'r disgyblion am ymateb mor bositif i'r cyfleoedd gwych y maent yn eu cael.

## Rhoddion i'r Llais

- £ 4.50 Dienw, Rhiwlas
- £ 5.00 Henry a Val Hayward, 14 Bro Derfel, Tregarth.
- £15.00 Mr a Mrs Eric Jones, Hen Ysgubor, Rhiwlas.
- £10.00 Er cof am Mr a Mrs Brinley Jones, Rhes Coetmor, Bethesda.
- £40.00 André a Sylvia Lomozik, Zakopane, Rhos y Coed, Bethesda.
- £10.00 Elfed a Rita Bullock, 30 Maes y Garnedd, Bethesda.
- £ 5.00 Joe ac Ettie Evans, 10 Glan Ffrydlas, Bethesda.
- £500 Clwb Cyfeillion Llais Ogwan.
- £100 Cyngor Cymuned Llanddeiniolen
- £150 Cyngor Cymuned Llandygái
- £330 Cyngor Cymuned Bethesda
- £175 Cyngor Cymuned Pentir
- £ 5.00 Dafydd Pritchard, 17 Rhes Elfed, Bethesda er cof am ei fab, Robert Werner Pritchard, a fu farw ar 26 Rhagfyr 2003 yn 32 mlwydd oed.
- £ 5.00 Dafydd Pritchard, 17 Rhes Elfed, Bethesda, a Helen, er cof am eu brawd, Trevor, a fu farw ar 16 Rhagfyr 1965 yn 23 oed.
- £ 4.50 Vernon ac Iris Davies, Stâd 'Rynys, Rachub.
- £10.00 Er cof am Raymond Williams, 3 Rhes Douglas, Bethesda, oddi wrth Barbara a'r teulu.
- £75.00 Hywel Williams, AS, Caernarfon.

Noddir gan  
Lywodraeth Cynulliad Cymru



## Annwyl Olygydd



Rwyf bellach wedi ymddeol ers rhyw dri mis o'm swydd fel uwch-ymarferydd yn yr adran lawfeddygaeth yn Ysbyty Gwynedd, Bangor. Yn ystod y cyfnod derbynias nifer fawr o gardiau ac anrhegion gan aelodau'r teulu, cymdogion, ffrindiau a chydweithwyr. Ond oherwydd bod y cardiau a'r anrhegion yn parhau i ddod hyd at yr wythnosau diwethaf 'ma hoffwn anfon fy niolchiadau diffuant i bawb a anfonodd gardiau, llythyrau ac anrhegion gyda dymuniadau da a llongyfarchiadau i mi ar fy ymddeoliad o'r gwasanaeth iechyd wedi 41 o flynyddoedd.

Cefais flynyddoedd hapus iawn yn gwneud y gwaith pwysig a oedd yn ofynnol ohonom, a theimlo ar ddiwedd y dydd fy mod wedi gwneud rhywbeth bach at gysuro a lleihau pryderon y cleifion oedd mor ofnus wrth wynebu sefyllfaoedd dieithr, yn arbennig os oedd y driniaeth yn gofyn defnyddio anaestetig er mwyn cyflawni rhai llawdriniaethau angenrheidiol.

Diolch i'r holl feddygon a llawfeddygon, y gweinyddesau a'm holl gydweithwyr yn y gwahanol adrannau o fewn yr ymddiredolaeth am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Unwaith eto, llawer o ddiolch i bawb am eu haelioni. Diolch hefyd i Llais Ogwan, a blwyddyn newydd dda i'r holl ddarllenwyr ac i holl drigolion y Dyffryn.

Cofion cynhesaf.  
**Bernard Jones.**

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

### Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen ddydd Sadwrn, 4 Rhagfyr. Braff oedd gweld amryw o hen gyfeillion ymysg y dorf, yn eu plith ein Cyn-Aelod Seneddol Mrs Betty Williams. Bu Siôn Corn yno hefyd, yn creu cyffro ymysg y plant, ac yn hael ei anrhegion iddynt. Cafwyd canmoliaeth mawr i'r baned a'r mins peis, a baratowyd gan aelodau'r gangen yn Nyffryn Ogwen. Hoffai swyddogion y gangen ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo, mewn unrhyw fodd, i wneud yr achlysur yn llwyddiant.

### Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yng Nghefnfaes nos Fawrth, 17 Ionawr – bydd adroddiad am y cyfarfod yn ymddangos yn rhifyn Chwefror y Llais.

## Llais Ogwan ar Dâp

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar gasét bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415  
**Neville Hughes** ☎ 600853

## Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

£18 Gwledydd Prydain  
£27 Ewrop  
£36 Gweddill y Byd



Owen G. Jones, 1 Erw Las,  
Bethesda, Gwynedd LL57 3NN  
post@llaisogwan.com

## Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen

### Cynhelir Cymhorthfa gan

**Hywel Williams AS.**  
yn Neuadd Talgai, Llandygái  
ar fore Gwener,  
27 Ionawr  
am 10.00 o'r gloch.

**Dewch draw i drafod.**

### Neuadd Ogwen Bethesda

#### Bore Coffi Plaid Cymru

Bore Sadwrn, 25 Chwefror  
10.00 - 12.00  
Mynediad 50c.


### Cyfarfod Blynyddol Cangen Dyffryn Ogwen

yn Neuadd Ogwen  
Nos Lun 27 Chwefror  
am 7.00 o'r gloch.

Gŵr Gwadd:  
**Llŷr Huws Gruffydd, A.C.**

## Nyth y Gân

Goriad yn Eglwys Llangwnnadr,  
Pen Llŷn



Mae yng ngwlad Llŷn drysorau  
O'r pell arferion gynt,  
A cholled fyddai iddynt  
Gael adain ar y gwynt.

Yn un o'i hen eglwysi  
Mae hanes wedi'i ddal  
Gan 'oriad y sydd yno  
Yn ddiogel ar ei wal.

Ei fenthyg i briodi  
Gâi'r tlodion yn y plwy,  
Roedd aur a modrwy briodas  
Ymhell o'u cyrraedd hwy.

Ni ellid cael gwell symbol  
Mewn priodas i'r rhai hyn  
I roi eu dwylo arno  
A'i wasgu ef yn dynn.

I agor y ddwy galon  
A dod â hwy ynghyd,  
I agor sawl clo hefyd  
I'w harwain drwy y byd.

I gloi a diogelu  
Y cariad rhwng y ddau  
Fel bod y cariad hwnnw  
Yn gallu hir barhau.

**Dafydd Morris**

## Plant Ysgol Sul Jerusalem



Plant Capel Jerusalem yn paratoi ar gyfer y Nadolig,  
ac mae Sam Tân a Sali Mai wedi dod yno i helpu!

# Bethesda

**Llên Ogwen,**  
Stryd Fawr, Bethesda  
☎ 600431

**John Wyn Jones,**  
Siop W E Jones  
(Siop John), Rhes Fictoria  
(Stryd Fawr), Bethesda  
☎ 600251

**Fiona Cadwaladr Owen,**  
Bryn Meurig Bach,  
Coed y Parc, Bethesda,  
LL57 4YW ☎ 601592

**Joe Hughes,**  
Awel y Nant, Ffordd Ffrydilas,  
Bethesda ☎ 601902

## Marwolaeth

Ar 10 Rhagfyr, yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Leslie Williams (Les Gray Motors) o Heulwen, 17 Stad Coetmor - priod, tad, taid a hen daid annwyl.

Cynhaliwyd ei angladd brynhawn dydd Gwener, 16 Rhagfyr, yn amlogfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Nia Williams, ficer Glanogwen, y Parchedig Huw John Hughes, gweinidog Rich a Delyth ym Mhendref, a'r Parchedig Gwyndaf Richards, gweinidog Carol a Huw yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Talwyd teyrnged arbennig i Taid Bethesda gan ei unig wyres, Rhian, ar ran yr wyrion i gyd, sef Aled, Gareth, Gwyn, Meilir, Steffan a Rhodri, a'i orwyrion Casi, Alys, Seren a Cai Llywelyn.

## Diolch

Dymuna Vera Williams, Carol a Huw, Rich a Delyth a'r teulu i gyd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn ystod eu profedigaeth o golli Leslie Williams (Les Gray Motors). Mae'r teulu yn ddyledus i haelioni pawb wrth iddynt dderbyn rhoddion tuag at 'Headway'. Diolch o galon i bawb.

## Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Percy Parry, Erw Las, sydd wedi bod yn Ysbyty Walton ac yna yn Ysbyty Gwynedd, lle mae'n disgwyl triniaeth.

## Profedigaeth

Yn sydyn yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Eunice Parry, gynt o Res Coetmor, yn 88 oed. Priod y diweddar Harry Parry, mam annwyl Ann ac Elwyn, nain hoffus Claire a Graham, Kevin a Donna, hen nain dyner i Wil a Cari. Treuliodd 80 mlynedd yn Rhes Coetmor cyn symud at y teulu yn Rhes Ogwen ac, eleni, symud i gartref Plas Garnedd yn Llanberis. Roedd Eunice yn weithgar iawn gyda'r WRVS yn Ysbyty Gwynedd, Hosbis yn y Cartref a gyda'r Ymddiriedolaeth Brydeinig.

Cynhaliwyd ei hangladd fore Mercher, 14 Tachwedd, gyda'r

# Y Ffenest Nadolig Orau Siop William Lewis, Bethesda



Mrs Rita Lewis yn derbyn y darian oddi wrth gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda am y ffenest Nadolig orau y llynedd. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

gwasanaeth yng Nghapel Jerusalem a mynwent Coetmor.

Dymuna Ann, Elwyn a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ac am y rhoddion Er Cof, a gasglwyd at yr Hosbis yn y Cartref a'r Gymdeithas Alzheimer. Diolch i'r Parchedig Geraint Hughes, y Parchedig John Owen, Mrs Menai Williams a Mr Stephen Jones am eu gwasanaeth. Dymuna'r teulu ddiolch hefyd i Heather Thomas a Megan Burnell am eu gofal a'u cymorth i Mam.

## Diolch

Dymuna Barbara, Wayne a Mark, 3 Rhes Douglas ddiolch yn fawr i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur trist marwolaeth Raymond. Diolch hefyd am y rhoddion er cof amdano; casglwyd £470 at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Mae'r teulu'n ddiolchgar iawn i'r ficer, y Barchedig Nia Williams, ac i gwmnu H.O. Davies, Bangor am yr holl drefniadau. Diolch yn fawr.

## Ysbyty

Bu sawl un yn yr ysbyty dros gyfnod y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Da deall fod rhai wedi dychwelyd gartref erbyn hyn ac yn gwella. Cofion cynnes atoch i gyd.

Mr Bill Lloyd Williams. Ffordd Bangor; Mr Stan Edwards, Stad Coetmor; Mr William Twigg, Maes Coetmor, Mr Percy Parry, Erw Las, Mrs Olwen Williams, Glanogwen.

## Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr Owie Williams a'r teulu, Maes y Garnedd, a Mr a Mrs Billy Williams a'r teulu, Maes y Garnedd yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

## Marwolaeth

Ar 28 Rhagfyr yn Ysbyty Eryri bu farw Mrs Beryl Ralph, 10 Rhes William, priod annwyl Mr Ted Ralph. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mercher 28 Rhagfyr gyda gwasanaeth yn Amlogfa Bangor dan arweiniad y Barchedig Jenny Hood, Glanogwen. Cydymdeimlwn â chi, Mr Ralph a'r teulu, yn eich colled.

Yng Nghartref Cerrig yr Afon, bu farw Mrs Agnes Coyne, Arafu Don, yn 91 oed; priod y diweddar Mr Terry Coyne, mam Elaine a nain Angus. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Iau, 22 Rhagfyr gyda gwasanaeth yn yr Eglwys Gatholig, Bethesda a mynwent Eglwys Coetmor. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

Ar 1 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Georgina Griffith, Caffi Ogwen, Stryd Fawr Bethesda; priod annwyl y diweddar Mr Arfon Griffith, mam a mam yng nghyfraith Philip a Beryl a nain hoffus Meleri a Fflur, chwaer Kathleen Lillian, Glanogwen. Bu Gina ac Arfon yn rhedeg Caffi Ogwen am flynyddoedd a bu gweld ei gau yn golled fawr i sawl un. Roedd Gina yn aelod selog yn Eglwys Crist, Glanogwen ac yno y cynhaliwyd y gwasanaeth ddydd ei hangladd, ac yna ym mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Barchedig Nia C. Williams, y Barchedig Jenny Hood a'r Parch Geraint Hughes, gyda Mrs Christine Edwards wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch chi fel teulu yn eich colled.

Ar 24 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr Raymond Williams, 3 Rhes Douglas, priod annwyl Mrs Barbara Williams, tad Wayne a Mark a thaid Cara Erin, brawd agos i Mr Mr Robot Williams, Ffordd Bangor a'r diweddar Mr Danny Williams. Bu'n gweithio yn Swyddfa'r Cyngor ym Mangor am flynyddoedd ac yn uchel ei barch gan ei gydweithwyr. Cynhaliwyd ei angladd ddydd Mercher, 4 Ionawr, gyda gwasanaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen.

Ar 27 Rhagfyr yng Nghartref Plas Ogwen, bu farw Mrs Veronica Roberts yn 89 oed; chwaer Lillian a'r diweddar Eileen, Margaret, Jim, Iris, Terry a Sheila. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Coetmor ddydd Iau 5 Ionawr, gyda'r ficer, y Barchedig Nia C. Williams, yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd.

Ar 4 Ionawr yng Nghartref Plas Ogwen, lle cafodd ofal arbennig, bu farw Mrs Margaret Elizabeth Walton yn 90 oed. Roedd yn chwaer i'r ddiweddar Mrs Gwladys Parry, Glanffrydilas ac yn fodryb hoffus i Gwenda a'r teulu yng Nglanffrydilas, Meurig a'r teulu yng Nghaer, Liz a'r teulu yng Nghaer, Carol a'r teulu yng Nghyffordd Llandudno, Gwyneth a'r teulu ym Mraichmelyn a'r diweddar Alwyn.

Cynhaliwyd gwasanaeth yng Nghapel Carmel, Llanllechid a mynwent Coetmor ddydd Llun 9 Ionawr. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog, y Parchedig Geraint S.R. Hughes gyda Mrs Helen Wyn Williams wrth yr organ. Cydymdeimlwn â chi fel teulu i gyd.

## Diolch

Dymuna Ceri Dart, 3 Rhos y Nant, ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da, cardiau a galwadau ffôn, ac i'r rhai a fu'n ymweld â hi yn ei chartref yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

## Yr Eglwys Unedig

Gweinidog: Y Parchedig Geraint Hughes

Daeth yn amser i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i'n gilydd unwaith eto, ond ni fu mis Rhagfyr yn garedig wrth bawb, a gwyddom y daw'r flwyddyn newydd hithau a'i thrallodion a'i gofidiau yn ogystal â llawenydd i lawer un. Anfonwn gofion annwyl at y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu gartrefi gofal.

Cawsom fel Eglwys golled fawr ym marwolaeth Mrs. Eunice Parry. Bu'n wael am gyfnod hir, ond tra y medrai bu'n ffyddlon iawn i'r gwasanaethau ac yn hynod o hael ei chyfraniad i'r holl agweddau o waith yr Eglwys. Cydymdeimlwn â'i merch, Ann, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Dathlodd Cymdeithas y Chwirydd y Nadolig gyda Nia Evans a Chôr Ogwen.

Mwynhawyd y canu'n fawr iawn, a chafwyd paned a lluniaeth ysgafn o dan ofal Heulwen, Minnie, Carys a Beryl. Dathlwyd mewn modd tebyg gan y Gymdeithas Lenyddol, - y noson wedi'i threfnu gan Emlyn Evans a Neville Hughes, gyda phaned o dan ofal Olwen Williams, Alwen Hughes ac Eileen Evans. Erbyn bore Sul, Rhagfyr 11, 'roedd y boiler wedi torri, a byddai wedi bod yn oer iawn oni bai bod cynulleidfda dda wedi dod i gefnogi'r plant yn eu Gwasanaeth Nadolig. Cafodd y cyfan ei sriptio gan y plant hyn, sy'n cyfarfod bob nos Fawrth,

gyda chymorth eu hathrawon brwdfrydig. 'Roedd yn wasanaeth ardderchog, ac yn rhoi cyfle i'r plant ddefnyddio eu doniau arbennig eu hunain – e.e. cawsom rap bywiog gan un o ffefrynau'r plant, sef Rapskaliwn. Yn yr un gwasanaeth, bedyddiwyd Gruff, mab bychan Angharad Llwyd a'i gŵr Dafydd Beech, a chroesawyd nifer o'r teulu atom. Yn dilyn hynny, cafwyd parti Nadolig gwerth chweil.

Yn anffodus, oherwydd y diffyg ar y boiler, ni lwyddwyd i gynnal y Gwasanaeth Carolau Cymunedol ar y nos Sul dilynol – dyma'r ail dro yn olynol i ni orfod dileu'r Gwasanaeth hwn, a 'does ond gobeithio bod yr hen ddywediad: "Tri chynnis i Gymro" yn wir, ac y cawn well lwc eleni!

Llongyfarchiadau unwaith yn rhagor i Lowri Roberts ac Elfed Morgan Morris ar ennill cystadleuaeth y garol yn Llangollen. Dyma'r trydydd tro iddynt fod yn fuddugol. Llongyfarchiadau hefyd i Griff ac Eleanor Charles Morris ar ddod yn daid a nain i Nest, merch fach Ceri a'i phriod, a'r un llongyfarchiadau i Myfanwy Jones ar ddod yn hen nain i fachgen bach arall i'w hwyres a'i phriod yn Llandysul.

**CYHOEDDIADAU'R SUL**  
Ionawr 22 Parch. Reuben Roberts  
Ionawr 29 Mr. Eurfryn Davies  
Chwefror 5 Y GWEINIDOG  
Chwefror 12 Parch. Trefor Jones  
Chwefror 19 Y GWEINIDOG

## Merched y Wawr, Cangen Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod olaf 2011 yng Nghanolfan Cefnfaes, nos Iau, Rhagfyr 15, o dan lywyddiaeth Margaret Jones. 'Roedd yn noson ddigon gaeafol, ac amryw dan yr annwyd ac anhwylderau eraill, ond 'roedd yn glyd a chynnes yn y Ganolfan. Gwnaed y gwaith angenrheidiol arferol, ac yna croesawyd y gŵr gwadd, sef Maldwyn Thomas o Fangor. Cawsom sgwrs fywiog a diddorol ganddo yn ôl ei arfer. Rhoddodd ddarlun o ddathlu'r Nadolig yn y llysoedd Cymreig, a hefyd fe drafododd stori'r Geni yn yr Efenngylau.

Wedi'r sgwrs, bu gwledda ar fins peis blasus y Llywydd, ac 'roedd tedi siocled ar gyfer pawb hefyd. Y ddwy Eirlys – Eirlys Jones, Penybryn ac Eirlys Cefni Jones, Carneddi, oedd yn gyfrifol am baratoi'r baned. Rhoddwyd gwobr lwcus gan Eleanor Morris ac enillwyd hi gan Medi Williams. Diolchwyd i'r siaradwr ac i bawb am lwyddiant y noson gan Gwenno Evans. Cyfeiriodd hefyd at waith caled y swyddogion, sef Margaret, Eleanor a Glenys, ac 'roedd pawb yn gwerthfawrogi eu hymdrechion.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Iau, 26 Ionawr, pan fydd rhai o'r aelodau yn sôn am dri lle, yn null y rhaglenni a welwyd ar y teledu. Dewch, ymunwch yn yr hwyl, a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

## Sefydliad y Merched, Carneddi

Yn absenoldeb ein llywydd, Gwyneth Morris, a oedd dan annwyd trwm, agorwyd y cyfarfod gan ein his-lywydd, Rita Bullock. Rhoddodd groeso cynnes i bawb yn ôl wedi'r Nadolig a dymunodd flwyddyn newydd dda i'r aelodau. Anfonodd Gwyneth ei chyfarchion at bawb hefyd. Mynegwyd llongyfarchiadau'r cyfarfod i Gwyneth ar ddod yn nain ar enedigaeth merch fach i Dafydd ei mab a'i wraig. Cyflwynwyd ymddiheuriadau un neu ddwy o'r aelodau na allant fod yn bresennol oherwydd annwyd - mae hynny'n anochel yr adoech yma o'r flwyddyn yn anffodus.

Darlennodd Jean Hughes gofnodion mis Rhagfyr a darlennodd Rita y llythyr misol. Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr André Lomozik, sy'n frodor o'r ardal ac yn barod iawn ei gymwynas bob amser. Cawsom noson ddifyr iawn yn ei gwmmi. Lluniau o Fethesda wedi eu tynnu tua 15 mlynedd yn ôl oedd ganddo, ac yn wir, mae stryd Bethesda wedi newid y aruthrol yn y 15 mlynedd ddiwethaf. Mae'n chwith gweld y pentref erbyn hyn. Diolcodd Rita i André am noson ddifyr dros ben ac am ei waith trylwyr yn cofnodi hanes Bethesda. Yr un oedd y diolch i'r merched am y baned a'r bisgedi. Violet Williams a enillodd y wobwr lwcus, a oedd yn rhodd gan Margaret Williams.

## Capel Bethania

**Dalier Sylw**  
Ionawr a Chwefror 2012:  
Dim Oedfaon.  
O fis Mawrth 2012 ymlaen:  
Cynhelir oedfaon ar y Sul cyntaf  
a'r trydydd Sul o'r mis  
(am 5.30)

Croeso Cynnes i Bawb

## Cylch Meithrin Cefnfaes

Sesiynau Dyddiol  
9.15 – 12.15 o'r gloch  
Cysylltwch â ni ar  
**07815 085 323**

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA

**'LLENWI'R CWPAN'**  
Dewch am sgwrs a phaned  
**Bob bore dydd Iau**  
rhwng 10.00 o'r gloch a  
hanner dydd

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA yng Nghapel Jerusalem

Estynnir croeso cynnes i  
bawb i oedfaon Sul

**Bore** Gwasanaeth ac Ysgol Sul am 10.00  
**Hwyr** Gwasanaeth am 5.00

## Rachub a Llanllechid

**Dilwyn Pritchard,**  
Llais Afon, 2 Bron Arfon,  
Rachub LL57 3LW  
☎ 601880

**Raymond Tugwell,**  
9 Ffordd Llanllechid  
☎ 601077

### Gwellhad

Anfonwn ein cofion at drigolion sydd heb fod yn teimlo'n dda ar ddechrau blwyddyn fel hyn. Yn eu plith mae Mrs Bet Hughes, 'Rhen Ysgol.

### Pen-blwydd

Dymuniadau gorau i Heather Williams, Ffordd Llanllechid, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ychydig ddyddiau wedi'r Nadolig.

Dymuna Heather ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur.

Dymuniadau gorau hefyd i John Richard Williams, Maes Bleddyn a ddathlodd ei ben-blwydd yn 65 oed yn ddiweddar.

### Priodas Ddiemwnt

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Jack Williams, Maes Bleddyn, ar achlysur hapus dathlu eu priodas ddiemwnt ar ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio fod Mr Williams yn gwella wedi iddo fod yn sâl yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dymuniadau gorau iddynt.

### Diolch

Dymuna Eirwen Williams, Ffordd Llanllechid ddiolch am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd gan deulu a ffrindiau ar achlysur ei phen-blwydd yn ystod mis Rhagfyr.

## Neuadd Ogwen Bethesda

**Bore Coffi**  
(at Ganolfan Rachub)

**Dydd Sadwrn, 28 Ionawr**  
10.00 - 12.00

**Mynediad 50c.**

## Llyfrau Dwylo Prysor



Dymuna Ysgol Llanllechid ddiolch yn fawr i aelodau'r Clwb Dwylo Prysor, Capel Carmel, am roddion arbennig iawn yn ddiweddar. Derbyniodd yr ysgol nifer fawr o lyfrau Addysg Grefyddol a fydd yn hynod ddefnyddiol ar gyfer y gwasnaethau boreol. Daeth tair o'r aelodau; cyn-ddisgyblion Ysgol Llanllechid, sef Siân Mererid, Siân Bryn ac Erin Bryn o amgylch y dosbarthiadau i gyflwyno'r llyfrau hardd gyda Mrs Helen Williams, a drefnodd y cyfan. Diolch yn fawr iawn i chi am eich haelioni ac am anrhegion Nadolig gwerth chweil.

# Capel Carmel, Llanllechid



Cân Anglion Capel Carmel



Y genethod ifanc yn canu

## CAPEL CARMEL Gwasanaethau

### Ionawr

22: Y Gweinidog am 2.00 a 5.00  
29: Parch. Gwynfor Williams 5.00

### Chwefror

5 : Y Parch. Gwynfor Williams 5.00  
12: Y Gweinidog 2.00 a 5.00  
19: Y Parch. W.R. Williams 2.00

Yr Ysgol Sul am 10.30 y.b.  
Dwylo Pysur Nos Wener 6.30

Croeso Cynnes

## Capel Bethel Trefn Gwasanaethau

### Ionawr

22: Y Parch. Dafydd Job  
29: Y Barch. Eleri Lloyd Jones

### Chwefror

5 : I'w gyhoeddi  
12: Y Gweinidog  
19: Y Parch. John Pritchard

Oedfaon am 2.00 o'r gloch.  
Croeso cynnes i bawb.

## Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-  
BWTHYN A ADEILADWYD AR  
WAELODION LLWYBR YR WYDDFA  
(O LLANBERIS)  
YN YSTOD Y 18<sup>ed</sup>. GANRIF  
CEWCH GROESO ARBENNIG  
YMA, YN OGYSTAL A  
GOLYGFYDOD GWYCH DROG  
LLYN PADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN  
DIODYDDO GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)  
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN \* YN ADDAS I'R ANABL  
**Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams**  
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk  
steven@ceunant.co.uk

# Carneddi

**Derfel Roberts,**  
Ffordd Carneddi, Bethesda  
☎ 600965


### Marwolaeth

Bu farw Carys Hughes  
(Pritchard cynt) o Sŵn y Môr,  
Bae Colwyn (gynt o 1 Ffordd  
Ffrydlas, Carneddi) yn 87

mlwydd oed. Hunodd yn dawel  
yn Ysbyty Gwynedd, Bangor ar  
29 Rhagfyr gyda'i theulu o'i  
chwmpas. Cafwyd gwasanaeth  
yng Nghapel Horeb, Bae Colwyn  
ar 11 Ionawr dan ofal y Parchedig  
Ifor Jones.

### Diolch

Dymunir Blwyddyn Newydd dda  
i Chris a Maureen Watson o'r  
Siôr a diolch iddynt am eu croeso  
Nos Galan a thrwy gydol y  
flwyddyn.



Dymuna Steven a Sioned Roberts 89 Ffordd Carneddi  
ddiolch am yr holl ddymuniadau da a'r anrhegion a gawsant  
ar achlysur eu priodas

# Gerlan

**Ann a Dafydd Fôn Williams,**  
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan  
☎ 601583

### Llongyfarchiadau

Rydym yn llongyfarch Mark a  
Karen Briggs, Stryd y Ffynnon, ar  
ddod yn nain a thaid unwaith eto.  
Ganed mab bychan, Twm, i'w  
merch, Helen, a'i phartner, Aled, ac  
mae pawb, yn arbennig felly ei  
chwaer fawr, Ela, wedi gwirioni ar  
y bychan.

### Penblwydd arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Lynne  
Pierce, Stryd Goronwy, sydd wedi  
dathlu ei phenblwydd yn 60 oed.  
Dymuniadau gorau oddi wrthym i  
gyd, Lyn, a gobeithiwn iti  
fwynhau'r dathlu yn fawr iawn.

### Dyweddio

Llongyfarchiadau mawr i Esther a  
Mathew, Stryd Goronwy, ar eu  
dyweddiad yn ddiweddar. Pob  
dymuniad da i'r dyfodol i chi eich  
dau.



### Ymweliad ag adref

Roedd edrych ymlaen yn eiddgar at y flwyddyn newydd yn 11 Stryd  
Goronwy, gan fod mab Lynne Pierce, David, ei bartner, Belinda, a'u mab,  
Charlie Llywelyn, yn dod adref dros yr ŵyl o Brisbane, Awstralia, i weld  
mam a nain, ac i gyfrannu yn natlu'r penblwydd arbennig. Roedd  
chwaer David, Debbie, a'i mab, Albie, hefyd, yn edrych ymlaen yn fawr  
iawn at weld ei brawd a'i deulu, ac yn arbennig, Charlie Llywelyn, gan  
nad oedd Debbie wedi ei weld o'r blaen. Gobeithio ichi gael hwyl fawr  
fel teulu ar yr adeg arbennig hon

**Brysiwch wella**

Rydym yn gyrru ein cofion at Mandy Roberts, Stryd Hir, sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty. Gobeithiwn eich bod yn gwella yn awr, Mandy. Cymrwch bwyll am dipyn nes bydd yr iechedd wedi gwella'n llwyr.

**Profedigaeth**

Rydym yn cydymdeimlo unwaith eto gyda Merfyn a Helen Williams, a'r teulu, Ciltwillan, a Pam Roberts a'r teulu, Ciltrefnus, yn eu profedigaeth o golli eu chwaer-yng-nghyfraith, y diweddar Gina Griffith, Caffi Ogwen, Bethesda. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr yn eich profedigaeth ddiweddaraf, y drydedd o fewn ychydig fisoedd.

**Dymuniadau gorau**

Bydd colled yn yr ardal ar ôl John a Leah Jones a'r plant, Deiniol, a Megan, wedi iddynt symud o'u cartref yn Stryd y Ffynnon i'w cartref newydd ym Mhentre Berw, Sir Fôn. Rydym yn dymuno'r gorau i chi yn eich cartref, a'ch ardal, newydd.

**Symud tŷ**

Gadael Stryd y Ffynnon fu hanes Gwion a Lisa Williams, a'u mab bach, Aron, hefyd. Bellach maent wedi ymgartrefu dros y mynydd yn Llanberis. Rydym yn dymuno'r gorau i chithau hefyd.

**Cofion**

Rydym yn gyrru ein cofion i Gwyn Williams, Ffrod Gerlan. Mae Gwyn wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd, ond mae bellach adref, ac rydym yn falch o glywed ei fod yn gwella. Ein dymuniadau gorau ichi, Gwyn

**Croeso**

Rydym yn estyn croeso i Nerys Williams, a'i merch fach, Cara, sydd wedi ymgartrefu yn Stryd y Ffynnon. Croeso mawr i chi eich dwy; gobeithiwn yn byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Problemau**

Unwaith eto eleni, cyn y Nadolig a'r flwyddyn newydd, bu problemau mawr gyda mynediad i fwsiau i fyny i'r Gerlan, gan fod pobl yn parcio yn fler, ac yn gwneud y ffordd yn rhy gul i fws fynd ar ei hyd, a methu troi'n ôl yn Stryd Morgan. Mae'r ddau gwmni bwsiau bellach yn bygwth peidio rhedeg gwasanaeth i'r Gerlan os na fydd pethau'n gwella. Byddai hynny'n arbennig o drist, ac yn golled fawr i'r rhai hynny sy'n dibynnu ar y bwsiau i fynd a dod.

**Blwyddyn newydd dda**

Rydym yn dymuno blwyddyn newydd dda i bawb. Gobeithio eich bod i gyd wedi mwynhau'r gwyliau, ac yn edrych ymlaen am 2012.

Dymunwn lwyddiant ac iechedd ichi trwy'r flwyddyn!

# Talybont

**Neville Hughes,**  
14 Pant, Bethesda  
☎ 600853

**Damwain**

Drwg oedd gennym glywed am ddamwain Joan Fox yn ei chartref, 63 Bro Emrys. Treuliodd wythnosau yn Ysbyty Gwynedd. Da deall ei bod wedi gwella yn ddigon da i gael ei symud i Ysbyty Eryri.

**Pen-blwydd Arbennig**

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann, merch Rita a Tony Jones, 28 Cae Gwigin, ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

**Capel Bethlehem****Talybont****Llongyfarch**

Llongyfarchwyd Neville ac Angharad Hughes ar ddod yn daid a nain i Owain, plentyn cyntaf i Llinos a Jeff yng Nghaerdydd.

**Bwrlwm**

Braf oedd treulio noson yn ein cwmni ein gilydd ar nos Wener, 9 Rhagfyr, i fwynhau cinio Nadolig ardderchog yn y Faenol, Pentir.

**Dathlu'r Geni**

Ar brynhawn Sul, 11 Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul ac fe wnaed casgliad o £124.80 tuag at Apel Nadolig Cymorth Cristnogol. Dilynwyd hyn gyda the parti yn y festri. Diolch i bawb.

**Blwyddyn Newydd Dda**

Anfonwyd ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau oll gan gofio yn arbennig am y rhai nad ydynt yn medru bod gyda ni o Sul i Sul, yn eu plith Margaret Hughes sydd bellach yng Nghartref Bryn Llifon, Bangor, a Dilys Williams, sydd yng Nghartref Plas Ogwen, Bethesda.

**Capel Bethlehem****Trefn Gwasanaethau****Ionawr**

22 : Parch. W. R. Williams, Y Felinheli  
29 : Y Parchedig Ddr. Elwyn Richards, Caernarfon

**Chwefror**

05 Y Gweinidog  
12 Parch. Dafydd Job, Bangor  
19 : Y Gweinidog  
26 : Parch. Reuben Roberts.

**Oedfaon am 2.00.**  
**Croeso cynnes i bawb.**

**Eglwys Maes y Groes**

Ar Sul cyntaf y mis cynhaliwyd gwasanaeth carolau dan arweiniad ein ficer, y Parchedig John Mathews, gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Darllenwyd rhannau o'r Beibl gan rai o'r aelodau. Dioch i'r rhai a drefnodd luniaeth ysgafn yn dilyn y gwasanaeth ac i bawb oedd yn gyfrifol am addusro'r eglwys.

Roeddem yn falch o weld meibion Gracie Griffiths a'u teuluoedd gartref i ddathlu'r Nadolig gyda'r teulu. Mae Gareth yn byw yn Oslo a Meirion yn Ne Affrig. Braf hefyd oedd cael croesawu Arwyn a'i deulu, a oedd yn cael ychydig seibiant cyn y Nadolig gyda'i dad, Brian Hughes, ym Mro Emrys.

Llongyfarchiadau i Bethan Pritchard, Glan Môr Isaf a Trystan Painter, Tanrallt, ar eu dyweddiad a phob dymuniad da iddynt at y dyfodol.

# Llandygái

**Ethel Davies, Pennard,**  
Llandygái ☎ 353886

**Gwaeledd**

Anfonwn ein cofion cynnes at amryw o'n cymdogion sydd wedi bod yn wael yn eu cartrefi:- Ernie a Nerys Coleman, Ieuan a Ceinwen Evans, Jim a Beryl Hughes, Bobby Jones, Gwen

Morsley, Betty Williams a Dorothy Proudley Williams - gobeithio y cewch flwyddyn well eleni.

Clywsom fod Mrs Olwen Lytham wedi cael codwm yn y tŷ yn ystod y Nadolig, ac wedi torri ei choes unwaith yn rhagor fel bod rhaid mynd â hi i Ysbyty Gwynedd. Rydym yn dymuno gwellhad buan i chi Mrs Lytham.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Tina a Jamie, Pennant, Pentref Llandygái ar enedigaeth eu mab bach, Jacob, a anwyd ar 28 Rhagfyr yn Ysbyty Gwynedd. Llongyfarchiadau Merfyn a Liz Jones, 21 Pentre Llandygái ar ddod yn daid a nain i Jacob. Bendith arnoch i gyd fel teulu.

**Parti Nadolig**

Cafodd yr henoed eu parti Nadolig yn Neuadd Talgai ar ddechrau Rhagfyr. Daeth nifer dda i ddathlu a bu'n brynhawn llawn hwyl gyda digonedd i'w fwyta. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo yn y parti ac i Myfi a'i ffrindiau am drefnu popeth.

**Noson Gymdeithasol Llandygái**

Nos Iau, 15 Rhagfyr cyfarfu'r pentrefwyr yn y Vaenol Arms ym Mhentir i ddathlu'r Nadolig. Cafwyd amser rhagorol a phawb wedi eu plesio'n fawr ar y noson. Diolch o galon i Eirlys ac Iona am drefnu popeth. Mae'n siwr y bydd cyfarfod arall yn ystod y tymor - i ddathlu Gŵyl Ddewi efallai.

**Ffair Nadolig Ysgol Llandygái**

Bu'r pennaeth, y staff, y plant a'r rhieni yn brysur iawn yn cynnal y Ffair Nadolig ar ddydd Gwener, 2 Rhagfyr. Roedd pawb wrth eu boddau gweld Siôn Corn yn bresennol, cael cymryd rhan yn y gystadleuaeth gwisg ffansi ac, wrth bwrs, cael profi'r lluniaeth flasu. Gobeithio eich bod wedi gwneud elw boddhaol wedi'r fath ymdrech orchestol.

**Llongyfarchiadau**

Rhaid llongyfarch Elfed Morgan Morris, Deiniolen (un o athrawon Ysgol Llandygái) a Lowri Watcyn

Roberts, Tregarth, ar ennill cystadleuaeth cyfansoddi carol y Daily Post eleni am y drydedd tro. Diolch i chi eich dau am roi Ysgol Llandygái ac Ysgol Brynrefail ar y map. Daliwch ati!

**Eglwys Sant Tegai****Gwaeledd**

Dymunwn adferiad iechedd buan i Jane Couch, Beryl Edwards, Gwynne Edwards a Harry Gross sydd wedi bod yn wael yn eu cartrefi ers tro bellach.

Rydym yn falch iawn o glywed fod Liz Jones wedi cael pen-glin newydd yn Ysbyty Gwynedd ar 17 Rhagfyr a'i bod yn dod ymlaen yn dda. Mae Sue Matthews yn gwella hefyd. Roedd pawb yn falch o'i gweld yn y cymun ar fore dydd Calan. Brysiwch wella un ac oll.

**Gwasanaethau Nadolig**

Nos Sul 18 Rhagfyr am 5.00 o'r gloch yng ngolau kannwyll cynhaliwyd gwasanaeth carolau dan arweiniad y Parchedig John Matthews, gyda Geraint Gill wrth yr organ. Diolch i'r Ficer, Ann, Rhian a Geraint am drefnu'r gwasanaeth ac i bawb arall a gymerodd ran. Diolch i Hefina a'r merched am ofalu am y gwyl mŵl a'r mins peis yn Neuadd Talgai ar ddiwedd y noson.

Bu John Matthews y brysur iawn noswyl Nadolig hefyd, yng ngwasanaeth y cymun yn Eglwys Sant Tegai am 11.15 yr hwyr. Diolch John. Rwy'n siwr bod Sue a chwithau yn falch o weld bore Llun yn gwawrio i chi gael rhyw egwyl fach.

**Penodiad newydd**

Penodwyd y Parchedig Aidan Coleman yn ficer Treffynnon gan Esgob Llanelwy, sef y Gwir Barchedig Ddr Gregory Cameron. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ym mis Mawrth. Dymunwn yn dda i Aidan, Sioned, Roisin, Shanna a Patrick yn eu cartref newydd. Mae'n anodd credu fod chwe mlynedd wedi mynd heibio ers iddo adael am Ros-y-medre a Phen-cae, Wrecsam.

# Pentir

**Anwen Thomas,**  
Min yr afon  
11 Rhydygroes, Pentir  
☎ 01248 355686

## Eglwys Sant Cedol

**Clwb Cant: Mis Rhagfyr**  
1af (929) Tom Parry,  
Nant y Garth  
Ail (30) Mair Roberts, Rhiwlas  
3ydd (04) Gaynor Parry,  
Nant y Garth.

**Ffair Nadolig** - Brynhawn  
Sadwrn 3 Rhagfyr cynhaliwyd  
Ffair Nadolig yr Eglwys yng  
Nghanolfan Glasinfryn.  
Mwynhawyd prynhawn  
llwyddiannus dros ben, yn  
llawn hwyl. Diolch i bawb am  
eu cefnogaeth.

**Cyngerdd Nadolig** - Nos Sul 4  
Rhagfyr cynhaliwyd Cyngerdd  
Nadolig gyda phlant ysgol  
Rhiwlas. Cafwyd noson o  
adloniant penigamp gyda'r  
plant yn perfformio caneuon  
allan o sioe Nadolig yr ysgol.  
Diolch o galon i blant ac  
athrawon yr ysgol am y fath  
ddifyrrwch.

Mae ein meddyliau gyda Mr a Mrs Davies, Hafod y Nant, Pentir a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem o golli Siân Gwenllian Lloyd Davies.

# Glasinfryn Caerhun

**Marred Glynn Jones**  
2 Stryd Fawr, Glasinfryn,  
Bangor LL57 4UP  
01248 351067  
Marred567@btinternet.com

## Parti

Cynhaliwyd Parti Nadolig hwyliog ar gyfer y pentref yn y Ganolfan yng Nglasinfryn. Diolch i'r dair a fu'n brysur yn trefnu'r cyfan – Lindsey o'r Hen Ysgol, Saffron o Stryd Fawr ac Elenid o Deras Elizabeth. Roedd yn braf cael y cyfle i ddod at ein gilydd i gael sgwrs a mwynhau.

## Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i Mrs Gwyneth Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, am iachad buan wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig ac eto i ddod yn y flwyddyn newydd.

## Diolch

Dymuna Mrs Beryl Williams a theulu y diweddar Glyn Vaughan Williams, Hen Dŷ, Tyddyn Heilyn, Caerhun, ddiolch yn ddifffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth ac am eu rhoddion er cof tuag at Eglwys Dewi Sant, Bangor a'r Gymdeithas Strôc. Diolch i'r Barchedig Ddr Carol Roberts am ei

## Cyngerdd Oriana

Nos Sul 18 Rhagfyr cafwyd noson yng Nghwmni Côr Oriana, dan arweiniad Lorna Todd. Mwynhawyd noson lwyddiannus yn eu cwmni. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn o fins pei a gwin cynnes wedi ei drefnu gan y côr. Wedi cyfnod hir, braf oedd cael croesawu'r côr yn ôl i St. Cedol. Unwaith eto, diolch yn fawr am noson wych.

## Llawdriniaeth

Braf deall fod Ann Disley yn gwella gartref wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Brysiwch wella Ann, braf fydd eich gweld yn ôl yn ein cwmni.

## Ysbyty

Anfonwn ein cofion at Anti Maggie, Waun Pentir, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch well Anti Maggie.

## Diolch

Ar ddechrau blwyddyn newydd hoffem fel Eglwys ddiolch i'r gymuned leol am y gefnogaeth i holl weithgareddau'r eglwys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch yn fawr iawn i chi oll.

hymweliadau cyson ag Ysbyty Gwynedd ac am y gwasanaeth, gyda'r Parchedig Wyn Roberts yn Eglwys Dewi Sant.

## Nain a Taid

Llongyfarchiadau i Mrs a Mrs Idwal Jones, Y Bwthyn, Waen Wen, ar ddod yn nain a thaid i Noa Lloyd Jones, mab cyntaf i Dylan, eu mab, a'i wraig Nia.

## Bingo

Cafwyd noson dda yn y Bingo Nadolig a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 16 Rhagfyr. Gwnaed elw o £110 tuag at Uned Gofal Babanod yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr iawn i'r ffyddloniaid sydd yn dod i'r Bingo ac i'r ffrindiau sydd yn cyfrannu at y gwobrau ac yn ariannol dros y flwyddyn. Ni chynhelir y Bingo yn ystod mis Ionawr.

## Clwb Cant Y Ganolfan

£20 - 127 David Thomas  
£10 - 88 Mrs Elsi Prytherch  
£ 5 - 30 Allan Jones  
£ 5- 15 Fred Evans

## Sefydliad y Merched

I ddathlu'r Nadolig, aethom unwaith eto eleni i Blas Menai ar 14 Rhagfyr. Mwynhawyd cinio ardderchog, a braf oedd cael cwmni nifer dda o'r aelodau. Estynnwyd croeso i Dr Ann Illsley sy'n gwella ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Diolch i Mair am drefnu'r noson. Erbyn hyn, mae'r Nadolig wedi mynd heibio felly Blwyddyn Newydd dda i bawb. Mae croeso bob amser i aelodau newydd i'r gangen.

# Rhiwlas

**John Huw Evans,**  
30 Bro Rhiwen, Rhiwlas  
☎352835

## Cronfa Eisteddfod yr Urdd

Mae'r gronfa ar ddechrau'r flwyddyn ychydig dros ddwy fil o bunnau, sy'n swm sylweddol o gofio mai ychydig fisoedd sydd er pan gychwynwyd yr ymgyrch. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn ystod mis Rhagfyr. Casglwyd £160 mewn Bingo yn y Neuadd Bentref ac er mai siomedig oedd y nifer a ddaeth i gefnogi cafwyd llawer o hwyl ac roedd y gwobrau yn werth eu hennill. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Nellie Parry a Carol Griffith o Ddeiniolen am ddod i alw'r rhifau a gwirio'r llyfrau pan elwid 'House' dros y Neuadd. Yna, y dydd Sadwrn cyn y Nadolig bu chwech o'r Pwyllgor ym Morrison's Bangor yn pacio bagiau siopwyr. Dau ar y tro yn gweithio shifft o ddwyawr yn ystod y dydd. Daeth hyn â £210 i'r coffrau.

## Geni

Llongyfarchiadau i John a Dawn, 25 Bro Rhiwen ar enedigaeth merch, Amy Skye Indy Anna Jones, chwaer fach i Shannon, Sammy a Siôn. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

## Gwaeledd

Mae un o ferched y pentref, Mrs Maggie Jones, 2 Rhos Penrhyn, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ers cyn y Nadolig. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ati.

## Dymuno Gwellhad

Cafodd Tony Jones, 9 Bron y Waun, lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig. Bydd ei gyfeillion a'i gydnabod yn falch o glywed ei fod yn gwella, a'n dymuniad yw cael ei gwmi o gwmpas y pentref yn fuan i drafod hynt a helynt y byd pêldroed unwaith eto.

Bu Mrs Myra Jones, 6 Bron y Waun hefyd yn Ysbyty Gwynedd yn ystod mis Rhagfyr. Anfonwn ein cofion ati gan obeithio y bydd yn cryfhau o ddydd i ddydd ac y cawn ei chwmi yng Nghlwb Rhiwen cyn bo hir.

## Anffawd

Disgynnodd Mrs Linda M. Jones, Erw Wen, Waun Pentir yn y tŷ a thorri ei braich. Gan ei bod mor hoff o goginio roedd hyn yn rhwystr mawr iddi wrth iddi ddarparu ar gyfer y Nadolig. Yn ffodus, roedd y plant, Catrin a Gwyn gartref dros yr wyl ac yn barod i gynorthwyo gyda'r paratodau. Dymunwn wellhad buan i chi Linda.

# Braichmelyn

**Rhiannon Efans,**  
Glanaber, Pant, Bethesda  
☎ 600689

## Cydymdeimlad

Ar ddechrau blwyddyn newydd fel hyn, trist yw gorfod cydymdeimlo â dau deulu o'r ardal.

Colli nai yn sydyn ac annisgwyl wnaeth Mrs Shirley Evans, y Bwthyn, Cefn Tŷ Ffrancon. Cydymdeimlwn â hi a'r teulu i gyd yn eu colled.

Yn dawel ym Mhlas Ogwen, bu farw Mrs Margaret E. Walton, gynt o'r Bwthyn. Daeth 'Anti Mags' fel y gelwid hi i fyw yn nes at ei theulu. Gwraig foneddigaidd a thawel oedd, ond pallodd ei hiechyd ac ymgartrefodd ym Mhlas Ogwen lle bu'n hapus iawn am flynyddoedd. Cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Parry a'r teulu ym Mryn y Glo, a gyda Mrs Gwenda Jones, Glanffrydlas a Meurig, Carol a Liz a'u teuluoedd, sef neiant a nthoedd iddi.

## Salwch

Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, yn eu plith Mr Eric Jones, Cefn Cwlyn. Brysiwch wella.

Gwellhad buan hefyd i Gwynfor Jones, Llys Hedd, wedi iddo dorri ei goes yn ddiweddar. Pwyll pia hi, Gwynfor!

## Dyrchafiad

Dymuniadau gorau i'r Barchedig Carol Roberts, 55 Braichmelyn, ar ei phenodiad yn ficer ar blwyf Llanberis. Bydd colled ar eich ôl.

# Tregarth

**Gwenda Davies,**  
Cae Glas,  
8 Tal y Cae, Tregarth  
☎ 601062

**Olwen Hills (Anti Olwen),**  
4 Bro Syr Ifor, Tregarth  
☎ 600192

## Dyweddiô

Llongyfarchiadau i Siân, merch Tegryd a Rhian Hughes, 2 Godre'r Parc, Sling, a Christopher Hodson, Cyffordd Llandudno ar eu dyweddiad ym Mis Tachwedd.

## Dymuno Blwyddyn Newydd Dda

Mae'n braf iawn drwy golofnau'r Llais medru dymuno Blwyddyn Newydd Dda i'r holl ddarlennwyr. Fe hoffai Mrs Lilian Richardson, Ffordd Tanrhiw, dymuno Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau sy'n garedig wrthi gan na all adael y tŷ. Roedd yn methu anfon cardiau 'Dolig eleni ond mae'n anfon ei chofion at bawb yn yr ardal.



**Cartref Newydd**

Mae Julie a David Jones a'r merched, Beca Dafydd ac Ela Dafydd, wedi symud i fyw o'u cartref yn Ffordd Tanrhiw ac wedi setlo bellach yn eu cartref newydd yng Ngwaen y Dderwen, Stryd Bangor, Bethesda. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd.

**Yn yr Ysbyty**

Gwellhad llwyr a buan i Mrs Beryl Brown, 18 Ffordd Tanrhiw, wedi llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig. Gofal gyda'r cerdded Beryl a phob dymuniad da oddi wrth eich ffrindiau a chymdogion yma yn Nhregarth.

**Llwyddiant Cerddorol**

Llongyfarchiadau i Tomos Morris Jones, Lliwedd, Tal y Cae, mab Christine ac Emyr Morris Jones, ar ei lwyddiant mewn arholiad piano Gradd 5 yn ddiweddar. Mae Tomos hefyd yn sacsoffonydd o fri. Bu'n rhan o gyngerdd yn Eglwys Gadeiriol Bangor cyn y Nadolig fel aelod o Fand Jazz Ysgol Tryfan, Bangor. Ardderchog Tomos. Gwahoddwyd y Band Jazz i gymryd rhan yn y noson a chafwyd cyfle i wrando ar y delynores dalentog o Bentir, sef Glain Dafydd. Noson hynod o gofiadwy i bawb a oedd yn bresennol.

**Profedigaeth**

Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, ar Ragfyr 18, bu farw Margaret Nesta Jones [Daxter] o 37 Ffordd Tanrhiw a hithau'n 92 mlwydd oed. Cydymdeimlwn gyda'i phriod Dafydd Francis, ei meibion David, Peter a Raymond a'i hŵyr Russell. cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys y Santes Fair, y Gelli, ddydd Iau, Rhagfyr 22.

## Eglwys y Santes Fair

**Pen-blwydd Hapus**

Dymuniadau gorau i Mr David Jones, 49 Bro Syr Ifor, a ddathlodd ei benblwydd yn 80 oed ar 26 Rhagfyr

**Gwellhad**

Dymunwn adferiad buan i Mrs Beryl Brown, 18 Tanrhiw yn dilyn llawdriniaeth ar ei chlun yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig. Brysiwch wella!

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn gyda Mr David Francis Jones, a Mr Raymond Daxter, 37 Ffordd Tanrhiw, yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam,

## Merched y Wawr Cangen Tregarth

Ar Ragfyr 5 bu aelodau 'r gangen yn gwledda ac yn dathlu'r Nadolig yn Nhafarn Y Faenol ym Mhentir. Gwnaed yr holl drefniadau gan ddwy o aelodau'r gangen, sef y chwirydd Beryl Hughes a Carys Williams.

Cafwyd pryd o fwyd ardderchog a phawb wedi cael eu plesio. Diolchwyd am drefniadau trylwyr gan Alwenna Puw a dymunwyd Nadolig Llawen iawn i'r holl aelodau. Anfonwyd cofion at y rhai oedd yn methu â bod yn bresennol am amrywiol resymau. Bydd y gangen yn cyfarfod yn y flwyddyn newydd ar 9 Ionawr a thestun y noson fydd 'O'r Winllan'

Ym Mis Chwefror daw Geraint Thomas, ffotograffydd o Gaernarfon, atom i Ffestri Capel, Shiloh, a bydd yn gyfle i wrando ac i weld ei waith a mwynhau gweld ei lyfr diweddaraf, sef 'Llynoedd Eryri'. Croeso cynnes iawn i'r aelodau, cyn-aelodau ac aelodau newydd i Shiloh am 7 o'r gloch.

## CAPEL SHILOH

**Ysgol Sul am 10.30 ac Oedfa'r hwyr am 5.30**

**Ionawr**

15 Islwyn Hughes, Llangoed  
22 Y Parch. Dafydd Hughes, Caernarfon  
29 Y Parch. John Owen, Bethesda  
**Chwefror**  
05 Y Parch. Gwynfor Williams  
12 Y Parch. Phillip Barnett, Deganwy  
19 Y Parch. Harri Owain Jones, Llanfairpwllgwyngyll  
26 Y Diacon Stephen Roe, Porthaethwy

Roedd yr oedfa Nos Sul, 4 Rhagfyr yn oedfa arbennig iawn yng ngofal y Gweinidog, y Parchedig Gwynfor Williams. Yn ystod yr oedfa rhoddwyd croeso cynnes i dri o aelodau'r capel i fod yn flaenoriaid, sef Mrs Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm, Mrs Ffion Rowlinson, Bethesda a Mr Wynne Roberts, Bryn Difyr, Braich Talog, Tregarth. Llongyfarchiadau i'r tri ohonoch a phob dymuniad da yn y swydd newydd.

Pnawn Sul, 18 Rhagfyr cynhaliwyd Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul yn Shiloh. Unwaith eto eleni daeth cynulleidfia deilwng i weld drama'r geni yn cael ei pherfformio gan blant a phobl ifanc y capel. Cafwyd peth cymorth gan rai o rieni'r Ysgol Sul yn y darlenniadau.

'Roedd pawb ar eu gorau a fflyd o angylion bach yn llenwi'r sêd fawr. Gan fod prinder hogiau iau i fod yn ddoethion daeth yr hogiau hynaf i'r adwy a gwnaeth pawb eu gwaith yn gampus; dathlwyd y Nadolig yn syml a thraddodiadol iawn. Diolch i bob un ohonoch chi a gymerodd ran a diolch am eich ffyddlondeb i'r Ysgol Sul drwy gydol y flwyddyn.

Ar ddiwedd yr Oedfa cafwyd parti Nadolig gwerth chweil a daeth Siôn Corn yn ôl ei arfer i rannu anrhegion i bob un o'r aelodau ifanc. Diolch i'r organydd Wyn Williams, ac i Siôn Corn am ei ymweliad blynyddol.

## Y Llais yn Diolch

Wedi blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r Llais fel gwerthwr, mae Glyn Owen, 17 Maes Ogwen wedi 'ymddeol'. Mae Llais Ogwan yn ddiolchgar iawn am ei waith cydwytodol ac yn dymuno'n dda iddo ar ei 'ymddeoliad'! Fred a Bess Buckley, 28 Maes Ogwen fydd yn cymryd drosodd o'r mis hwn ymlaen, ac mae'r Llais yn diolch yn fawr iddynt am sefyll yn y bwloch.

## Clwb Cant Y Gelli Rhagfyr

£20 - 72 Gwyneth Williams  
£10 - 53 Janet Jones  
£10 - 17 Daphne Russell  
£5 - 1 Raymond Daxter

sef y ddiweddar Mrs Nesta Jones a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 18 Rhagfyr. Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair o dan ofal y Parchedig John Matthews ar 22 Rhagfyr.

**Te Nadolig**

Erbyn hyn mae cyfanswm y Te Nadolig yn £1,112. Diolch yn fawr iawn i bawb am weithio mor galed tuag at godi swm ardderchog. Dyma restr enillwyr y Raffl Fawr :-

**£50** Christine a Ted, Conwy  
**£30** Val ac Islwyn, Dob  
**£25** Annwen Gwyn, Tregarth  
**Basged Nwyddau Nadolig**  
Malcom Morris, Bangor  
**Cinio Sul i 2 (Carreg Môn)**

Jean Lane, Morfa Bychan  
**Ffynnon Ardd**  
Carol Morris, Tregarth  
**2 Docyn i Bantomein**  
**Aladdin** Bet Higgins, Rhostryfan  
**Tun Bisgedi**  
H A Griffith, Tregarth  
**Tocyn Rhodd: Cig**  
John Davies, Maesgierchen  
**Bocs Llysiau Cynnyrch Lleol**  
Angus Jones, Rhosllanerchrugog  
**Tun Mawr Bisgedi**  
Susan Hopkins, Llanfairfechan  
**Cinio Sul i 2 (Vaynol Arms)**  
Helen Silvers, Gwlad yr Haf  
**Potel Sieri** Glyn Owen, Tregarth  
**"Coasters" Llechen**  
John, Abergele  
**Tocyn Teulu Mynydd**  
**Gwefru** Muriel Pritchard, Waen Wen  
**Bocs Bisgedi**  
Mair Griffiths, Waen Wen  
**Ymbarel**  
Alwyn S Williams, Bangor  
**Potel Port**  
Sandra, Tregarth  
**Tocyn Rhodd Cacem**  
Chris Perry, Tregarth  
**Dysgl Caserol**  
Tudur David, Tan Lôn

**Potel Gwin Sinsur**  
Penrhyn View, Bangor  
**Gorchudd Gwely Dwbwl**  
Daphne Russell  
**Potel Win** Dylan, Bala  
**Tocyn Teulu Gelli Gyffwrdd**  
Ellen Griffiths, Tregarth  
**Pelen Eira Miwsig**  
Joan, Clwb Blodau  
**Calendr Undeb Rygbi Cymru**  
David Roberts, Gerlan  
**Te Crempog**  
Gan fod y Pasg yn disgyn ar 8 Ebrill eleni bydd y Te Crempog yn gynharach hefyd, sef 21 Chwefror. Cynhelir y te yn yr eglwys o 2.00 - 4.00yp, pris, £2.00.

## Clwb Cant Canolfan Tregarth

**Mis Tachwedd**  
3 Gomer Davies £15  
37 Angharad Williams £10  
16 Gerallt Williams £ 5

**Mis Rhagfyr (Bonws Nadolig)**  
29 Rosemary Williams £15  
19 Arthur Williams £15  
16 Gerallt Williams £10  
44 Lynda Owen £ 5

Angen siarad yn gyfrinachol?

**SAMARIAID**

Llinell Gymraeg  
0300 123 3011

**BARBWR OGWEN**



Torri Gwalltiau  
Dynion a Phlant  
gan Alison

**Cerbydau Penrhyn**  
**CABIAU A BYSIAU MINI**  
Ffôn: (01248) 600072  
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd  
Contractau  
Contractwyr i Wasanaeth  
Ambiwylans Gogledd Cymru

**Modurdy Central**  
Ceir ail-law ar werth  
M.O.T. ar gael  
Hefyd  
Trwsio a Gwasanaeth  
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda  
☎601031

**electricals**  
andrew duggan  
Atgyweiriadau teledu a fideo,  
offer sain, derbynwyr lloeren.  
Hefyd gwerthiant a gwasanaeth  
38 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AN  
Ffôn/Ffacs 01248 602584

**Gwasanaeth Trin  
a Thorri Gwallt Ceri**  
1 Bryn Eglwys  
Llanllechid  
Gwynedd  
LL57 3LE  
Ffôn: 07796 583 203



**Y Douglas Arms**  
\* Lluniaeth i Bartïon \* Te Cynhebrwng \*  
\* Gardd Gwrw \* Te a Choffi \*  
Oriau Agor  
Llun - Gwener: 5.00 - 11.00  
01248 600219  
www.douglas-arms-bethesda  
Cewch groeso cynnes gan  
Gwyn, Christine a Geoffrey

**CAFFI COED Y BRENIN**  
1 Rhes Buddug, Bethesda  
Ffôn: 01248 602550

**"J.R."**  
**SGAFFALDWYR**  
Yr Iard, Ffordd Stesion  
Bethesda  
Ffôn: (01248) 601754  
Dyma ni - sgaffaldwyr o fri

**MODURON  
PANDY  
Cyf.**  
**Tregarth**  
Gwasanaeth ♦ Atgyweirio  
Canolfan 'Unipart'  
M.O.T.  
Ffôn: 01248 600619 (dydd)

Bwyd cartref blasus  
(mewn awyrgylch cyfeillgar)  
Cinio arbennig bob dydd Iau  
Bwyd i'w gario allan  
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer  
partïon o bob math -  
plant, pen-blwydd ac ati  
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)  
Cacennau ar gyfer pob achlysur  
e.e. priodas neu ben-blwydd  
Prisiau rhesymol

**MODURDY  
FFRYDLAS**  
Profion  
M.O.T.  
Perchenogion  
I.D.Hughes ac A. Ll. Williams  
**Stryd Fawr, Bethesda**  
♦ PROFION M.O.T. ♦  
**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO**  
♦ TEIARS A BATRIS ♦  
**GWASANAETH TORRI I LAWR**  
**NEU DDAMWAIN**

Sefydlwyd 1969  
**m.hughes  
a'i fab**  
**CONTRACTWYR TOI**  
2 Hen Aelwyd, Bethesda  
☎ 600633  
☎ (symudol) 07702 583765  
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.  
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.  
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am  
waith diguro.

**BISTRO'R BRENIN**  
(Bwyty Trwyddedig)  
Rydym yn croesawu partïon  
o bob math - dathlu pen-blwydd  
ac achlysuron arbennig eraill.  
Beth am eich Parti Nadolig?  
**Ffoniwch**  
**01248 602550**  
e-bost : [karena@agoriad.org.uk](mailto:karena@agoriad.org.uk)

☎ 600723  
Ffacs: 605068

**Gorsaf betrol  
BERAN**  
Deiniolen  
Ffôn: Llanberis 871521  
Ar agor bob dydd 24/7  
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo  
Cylchgronau • Papurau newydd  
Cardiau pen-blwydd • Melysion  
Tocynnau loteri  
Gwasanaeth PAYPOINT ar gyfer  
trydan, nwy, ffonau symudol,  
trwyddedau teledu ayyb

**Blodau Hyfryd**  
7 Rhes Buddug, Bethesda  
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)  
Blodau ar gyfer pob achlysur  
Priodasau, Angladdau ayyb  
Ffres a Sidan  
Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

**BYSUS**  
*D. J. Owens*  
RHUWLAS  
01248 361044 a 07771 634195  
  
BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER  
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -  
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.  
**Bysus Gwyrdd Rhiwlas**  
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY  
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Mynydd Llandygái

Theta Owen.

Gwêl y Môr,  
Mynydd Llandygái.  
☎ 600744

## Gwellhad Buan

Anfonwn ein cofion gorau at Mr Brian Tocker, Cae'r Mynydd. Nid yw wedi bod yn rhy dda.

## Clwb y Mynydd

Cafwyd cinio Nadolig ardderchog yn Rose Torr, Llandudno - pawb wedi mwynhau. Enillydd y raffl oedd Mrs Janet Williams. Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf ym mis Chwefror, yn y Neuadd am ddau o'r gloch.

## Pen-blwydd

Bydd dwy yn dathlu pen-blwydd arbennig ddiweddi Ionawr, sef Lynda Owen ac Annwen Morris. Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus i chi eich dwy

## Diolch

Derbyniwyd £744 er cof am Bryn Williams, gynt o 4 Gerlan. Cyflwynwyd yr arian i Ambiwylans Awyr Gogledd Cymru. Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni.

## Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

### Ionawr

15: Cymun (Saesneg)  
22: Cymun 9.45  
29: Cymun, Eglwys Sant Cedol, Pentir.  
(Yr unig wasanaeth yn y plwyf y Sul hwn)

### Chwefror

05: Gwasanaeth Teuluol 9.45  
12: Cymun Teuluol 9.45  
19: Boreol Weddi 9.45

Nos Fawrth, 21 Chwefror am 7.00 o'r gloch cynhelir Noson Gremfogau. Croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn yr Eglwys am gremfog a phaned.

Enillydd y "Fasged Fwyd Nadolig" oedd Mr Peter Price a'r teulu, Twillukstump. Gobeithio eu bod wedi mwynhau'r holl ddanteithion dros yr wyl

Diolch i bawb â'n cefnogodd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolch hefyd i'r ficer, y Barchedig Nia Williams, i'r Barchedig Christina McCrea ac i'n curad, y Barchedig Jenny Hood am eu holl waith yn ystod y flwyddyn. Dymunwn flwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

Ein dymuniadau gorau at bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

## Meithrin menter gymdeithasol leol

### Am gymorth:

i sefydlu menter  
i gynnal gweithdai  
i geisio am arian  
i redeg mudiad  
i wirfoddoli

### cysylltwch â

### Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol  
ymholiadau@mantellgwynedd.com  
01286 672626 neu 01341 422575  
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru  
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271



# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

## Wythnos y Llong Ryfel

**P**wy f'asa'n meddwl y caech chi'r fath beth â 'Warship Week' ym Methesda! Wel, dyna i chi'n wir a ddigwyddodd yn yr ardal rhwng 14 a 21 Mawrth, 1942. A dw i'n ffodus iawn i fod â'r rhaglen yn fy meddiant – 'Souvenir Programme' (a gostiai geiniog) – yn rhoi amlinelliad o ddigwyddiadau'r 'wythnos' (er nad nad oedd wythnos lawn o weithgareddau fel y cawn weld yn y man).

### Rhaglen

Ar glawr blaen y rhaglen, cawn lun rhan o long ryfel a'r capsion o dano: 'H.M. The King visits one of the ships' ac ar y cefn mae llun Churchill yn llenwi'r clawr gyda'r pennawd 'A Message to YOU' ac, o dan y llun:

*The world's future depends on us. Let us therefore brace ourselves to our duties, and so bear ourselves that, if the British Empire and its Commonwealth last for a thousand years, men will still say, THIS was their finest hour.*

– *The Prime Minister, The Right Hon. Winston Churchill*

### Nos Wener

Roedd y gweithgareddau'n dechrau ar y nos Wener, Mawrth 13, 1942 (er mai'r diwrnod canlynol oedd yr 'Opening Day'). Roedd cyngerdd wedi'i drefnu yn y Neuadd Gyhoeddus am 7 o'r gloch yr hwyr, gyda dau bris mynediad, 1/- a 1/6, a dyma oedd yr arlwy: 'The Llanllechid Children's Party in a Semi Naval Concert'. Byddai'n braf cael gwybod mwy am natur 'Semi Naval' y noson.

### Seremoni Agoriadol

Am ddau o'r gloch bnawn Sadwrn, roedd Cyfarfod Cyhoeddus yn y Neuadd i lansio'r 'Warship Week', gyda'r Cynghorydd W. E. Williams yn y Gadair. Y siaradwyr gwadd oedd y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Davies o Landinam, Major Goronwy Owen, A.S., Maer Bangor, a Dr Alun Thomas, Bangor.

Am bedwar o'r gloch, roedd gorymdaith o'r Neuadd Gyhoeddus 'past Statutory Base, Glanogwen Church House and Adwy'r Nant, which will include: Local Authorities, Naval and Military Units, Home Guard, Civil Defence, Red Cross and St John Units, British Legion, W.V.S., A.T.C. and Church Lads Brigade'. Ac yna: 'The Salute will be taken by: The Right Hon. Lord Penrhyn, supported by The Right Hon. Lord Davies, Councillor W. E. Williams (Chairman Warship Week), His Worship the Mayor of Bangor, Councillor H. Lloyd, Bethesda U.D.C., Councillor Robert Williams (Chairman Ogwen R.D.C., R. B. Roberts, Esq. (Chairman Savings Committee).

### Nos Sadwrn

Ac i goroni gweithgareddau'r dydd, roedd y Red Cross Penny a Week Committee wedi trefnu 'Grand Dance' gyda'r nos yn Ysgol y Sir, gyda'r pris mynediad yn 2/6 (yn cynnwys 'Refreshments').

Y Prifathro, E. Ewart Price, oedd yr *M.C.* a'r gerddoriaeth yng ngofal yr Hedley Moffatt's Band (a'r arweinydd, Hedley Moffatt, gyda llaw, yn berchen y 'Royal Café' yn Abergwyngregyn).

### Nos Fawrth

Doedd dim yn cael ei gynnal ar y Sul na'r dydd Llun ond roedd dau weithgaredd wedi eu trefnu ar gyfer nos Fawrth – Gyrfa Chwist yn y Neuadd am chwarter i saith (pris mynediad yn 1/-) a Dawns yn Neuadd Pritchard Jones, Bangor (mynediad yn 1/-) wedi'i threfnu gan y 'Llanllechid Home Guard'.

### Nos Fercher

Dawns eto ar y Nos Fercher, yn Neuadd Gyhoeddus Bethesda (mynediad yn 1/6 ond y 'refreshments' yn ychwanegol). Y Bethesda W.V.S. oedd yn gyfrifol am y trefniadau a'r Cynghorydd W. E. Williams oedd yr *M.C.* Ar yr un pryd yn union, roedd y Tregarth W.V.S. wedi trefnu i'r Llanllechid Children's Party gynnal eu 'Semi Naval Programme' unwaith eto, yn Ysgoldy'r Gelli y tro hwn a'r mynediad yn 1/-.

### Noson Lawen

Ar ganol y dudalen nesaf, mae llun llong ryfel yn mygu ar y cefnfor, gyda'r capsion o dan y llun: 'Ready for Action' a'r siars 'Rhoddwch eich cyfan yn fenthyg. *Lend your all*'. I gloi'r gweithgareddau, roedd Noson Lawen (*Welsh Merry Night* yn y Saesneg!) yn y Neuadd 'gan dalentau Môn a Lleol'. Yr arweinydd oedd Gwilym Ceinion, Llannerch-y-medd, a'r pris mynediad oedd 1/6 i gynnwys y bwyd a oedd wedi'i ddarparu gan Adran Bethesda o'r W.V.S.

### Cystadlaethau

Daw'r rhaglen i ben gyda chystadlaethau ar gyfer plant – 'For the best Model of a Warship in Cardboard or Stiff Paper ... not less than 12 inches in length, gyda gwobrau o 10/-, 5/- a 2/6; ac ar gyfer oedolion – 'For the best Slogan for Warship Week (in English or Welsh)', a'r gwobrau fel rhai'r plant.

### Targed

Yr hyn sy'n peri syndod yw'r targed ariannol a osodwyd i Fethesda ac Ogwen – £25,000! Prin y byddai tŷ llawn ym mhob un o'r gweithgareddau a drefnwyd wedi denu mwy na chanran fechan iawn o'r fath swm. A oedd gweithgareddau eraill, tybed? A oedd casgliad o dŷ i dŷ ym Methesda a Bangor? A gasglwyd y swm cyfan? Oni wnaed, faint a gasglwyd? Mae'n bosib y ceir atebion drwy chwilio ym mhapurau-newydd y cyfnod. A oes unrhyw un yn gwirfoddoli i chwilio?

## D. E. HUGHES a'i feibion cyf

YMGYMERWYR ADEILADAU  
N.H.B.C.  
Gardd Eden, Stryd Fawr,  
Rachub, LL57 3HF

Ffôn a Ffacs 01248 602010

## Malinda Hayward (Gwniadwraig)

Awel Deg  
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo  
- trwsio, altro ac ati -

**Ffoniwch**  
**01248 601164**

## Adrian Stokes

Peintiwr  
ac  
Addurnwr



Rhif Ffôn: 601 575  
Symudol 07765127704

## L. Sturrs a'i feibion

sefydlwyd yn 1965

## ADEILADWYR

Ffôn: 600953  
Ffacs: 602571

Pob math o waith trydanol

## Huw Jones

Ymgwymerwr Trydanol  
Trydanwr cymwysedig gyda  
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda  
Gwynedd LL57 3ST  
Ffôn: 01248 602480

## DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr  
Ysglodion pren i'r ardd  
Ffensio a thorri coed  
Asiant system gwresogi trwy  
losgi coed

01248 605207

## Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o  
bob math ar gael ar y safle  
Prisiau rhesymol  
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



## Tudur Owen, Roberts, Glynne a'u cwmni



DEWCH I WELD  
EICH  
CYFREITHIWR  
LLEOL

SGWÂR BUDDUG  
STRYD FAWR  
BETHESDA  
GWYNEDD  
LL57 3AG

BETHESDA  
01248 600171

torgbethesda@hotmail.co.uk

## Cyfreithwyr

Y CYNGOR CYNTAF  
AM DDIM

EWYLLYSIAU A  
PHROFIANT

SYMUD TŶ

## OWEN'S TREGARTH Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 6 ac 16 sedd  
Ffoniwch am bris diguro

**01248 602260**

07761619475

pandv.owen@btinternet.com

## Tony Davies Plymio a Gwresogi

Tŷ Capel Peniel, Llanllechid  
Rhif Corgi 190913

Symudol 078184 10640  
01248 601 466

## Contractwyr Trydanol

## Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig  
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257  
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



## Côr Meibion y Penrhyn

### Cyngerdd Ysgubol

“Gwych”, “Bendigedig” “Ardderchog”, “Campus”, - dyna rai o'r ansoddeiriau a glywyd yn dilyn cyngerdd blynyddol y côr yn Neuadd Prichard Jones, Bangor ar 11 Rhagfyr.

Ymhlith yr artistiaid talentog a rannodd y llwyfan gyda'r côr roedd y tenor adnabyddus, Rhys Meirion o Ruthun ynghyd â'r pianydd byd-enwog Iwan Llewelyn Jones o Amlwch. Canodd Rhys *Annabel Lee* yn synhwyrus a melys ac yna'r hen ffefryn Gymreig, Bugail Aberdyfi a pherfformiodd Iwan Llewelyn Jones dri darn gan wfreiddio pawb gyda'i fedrusrwydd. Cafwyd eirtemau hefyd gan Gwyn Owen, trwmpeidr ifanc galluog o Dregarth a Glain Dafydd, telynoes sy'n sicr ar ei ffordd i fod ymhlith datgeiniaid gorau ein gwlad ar y delyn.

I gloi'r hanner cyntaf cafwyd datganiad gan Shappard, gyda Patrick Rimes o'r Gerlan yn eu plith. Dilynwyd y pedwarawd gan y côr yn canu Myfanwy, ac yna ddatganiad nerthol o'r emyn dôn adnabyddus Gwahoddiad gyda'r Amen ar y diwedd yn codi'r to.

Wrth dalu'r diolchiadau, dywedodd Wil Parry, cadeirydd y côr, mai egwyddor neu athroniaeth syml Côr y Penrhyn yw rhoi cyfle, lle mae hynny'n bosibl, i berfformwyr a chantorion ifanc o'r fro i rannu llwyfan gyda ni. Diolch i Dafydd Hardy a'i Gwmni, (Gwerthwyr Tai) ac Ymddiriedolaeth Laspen am eu cefnogaeth werthfawr.

### Rhys Meirion yn canu gyda'r côr ar CD newydd gyffrous

Mae CD newydd Côr y Penrhyn bellach ar gael yn y siopau a chan aelodau'r côr. Dyma CD wirioneddol gyffrous a gafaelgar gan fod ynddi amrywiaeth mor eang o ganeuon mewn sawl iaith yn ogystal ag unawdydd o fri rhyngwladol yn Rhys Meirion, y tenor adnabyddus o Ruthun. Ar ben hynny clywir synau nifer helaeth o offerynnau. Enw'r CD yw *Anthem* ac mae hi ar gael o dan label Sain. Mynnwch gopi ohoni ar unwaith cyn i'r cyfan ddiflannu oddi ar y sillfoedd.

### Stadiwm y Mileniwm

Mae'r côr wedi derbyn gwahoddiad i ganu yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd o flaen ac yn ystod y gêm ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban ym Mis Chwefror. Mae'r côr wrthi'n brysur yn dysgu'r darnau ar gyfer yr achlysur eisoes.

### Cyngerdd yn Lloegr

Bydd y côr yn teithio i Corby i ganu gyda chôr meibion y lle hwnnw ym Mis Mawrth. Bydd Côr Meibion Corby yn dod i Ogledd Cymru i ganu gyda ni yn ddiweddarach ac mae'n debyg mai yn Llandudno y digwydd hynny.

## Côr Meibion Dinas Bangor

Canodd y Côr yn Ffair Nadolig Ysgol y Faenol yn ddiweddar. Yn yr ysgol bydd y Côr yn ymarfer yn wythnosol ac mae cydweithrediad da rhwng y Côr a'r Ysgol.

Ar 21 Rhagfyr daeth nifer dda o'r aelodau at ei gilydd i Westy Dolbadarn, Llanberis i gael bwyd a chyfarfod anffurfiol cyn y Nadolig. Mwynhawyd p'nawn difyr, a braf oedd gweld bron iawn bob un o'r aelodau yno heblaw un neu ddau oedd yn methu oherwydd ymrwymiad arall. Syniad yr ysgrifennydd Myfyr Parry oedd hwn, a'i gynnal yn ystod amser cinio yn hytrach na chyda'r nos - mae'n amlwg fod y syniad yn apelio yn fawr iawn. Darparwyd bwyd hynod o flasu gan Aneuryn Jones, perchennog y Dolbadarn ac aelod ffyddlon iawn o'r Côr, a'i gydweithwyr, ac mae ein diolch yn fawr iawn iddo fo ac i Myfyr am roi dechrau da i'r dathliadau!

Oherwydd y llifogydd enbyd yng Ngwlad Thai bu raid i'r arweinydd James Griffiths ddod adref ar ôl pythefnos allan o naw wythnos o arholi ac o ganlyniad i hynny bydd yn rhaid iddo ddychwelyd i Bangkok i gwblhau'r gwaith am saith wythnos ar y 6ed o Ionawr. Y mae wedi cymryd seibiant o'r Côr tan fis Mawrth, a bydd Gwilym Lewis yn cymryd yr awenau fel arweinydd.

Ar yr ail o Fawrth Gwilym fydd yn arwain y Côr yn y cyngerdd mawreddog yn Neuadd PJ Bangor gyda nifer o gorau ac artistiaid eraill i godi arian at Eisteddfod yr Urdd.

Fel sydd wedi cael ei ddweud sawl tro, bydd 2012 yn flwyddyn o recriwtio aelodau newydd yn hanes y Côr. Y gobaith fydd ehangu nifer yr aelodau ym mhob adran sef tenor un a dau, a bâs un a dau, felly os oes unrhyw ddarllenwr â'i fryd ar ymuno â chôr meibion hwyliog sydd yn teithio dipyn go lew ac yn mwynhau canu, deued i Ysgol y Faenol unrhyw nos Fercher i wrando a, gobeithio, ymaelodi. Cewch groeso mawr.

### Cist Gymunedol *chwaraeon cymru*

**Awydd £1,500 tuag at eich prosiect chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Cist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Rhian Dobson** Swyddog Datblygu Chwaraeon

Rhif Ffôn: 01758 04 057

ebost:rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk

www.gwynedd.gov.uk

## O'r Cyngor

### Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yn Neuadd Talgai, Llandygái gyda'r Cynghorydd Kevin Glyn Williams yn y gadair.

**Biniau Halen Melyn:** Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn diolch i'r cyngor am gynnig prynu biniau ond y gôst o'u llenwi yw'r rheswm am wrthod y cais.

**Problem dŵr** ar y ffordd ger Plas Uchaf a gwaelod ffordd Penddu Uchaf: Cafwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn nodi ar ôl iddynt gysylltu gyda perchennog y cae bod y ffos wedi cael ei hagor ond nid oedd hyn wedi datrys y broblem ac fe fydd y cyngor sir yn ail edrych ar y mater.

**Arhosfa bws Talybont:** Mae giât a ffens wedi cael eu codi o amgylch yr arhosfa gan obeithio y bydd hyn yn helpu gyda phroblem fandaleiddio. Hefyd fe fydd bin yn cael ei osod ger yr arhosfa yn fuan.

### Ymddiriedolaeth Genedlaethol:

Cafwyd gwybodaeth y bydd ffens yn cael ei gosod o amgylch Chwarel Foel yn fuan gan yr ymddiriedolaeth.

**Traeth Lafan:** Mynychwyd cyfarfod o'r gymdeithas gan y Cynghorydd Ifan Rhys Williams lle y cyflwynwyd adroddiad ar 'Ardaloedd Rhagamcaniad Llifogydd'.

**Ceisiadau Cynllunio:** Nid oedd gwrthwynebiad i gais cynllunio i godi un tŷ fforddiadwy deulawr ar wahân a modurdy yn 1 Ystâd Llwyn Bedw, Llanllechid.



**Alun Ffred Jones**  
Aelod Cynulliad  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk



**Hywel Williams**  
Aelod Seneddol  
Etholaeth Arfon

### CYMORTHFYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch af ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR  
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE  
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk

**Hysbysebwn yn y  
Llais: Cysylltwch â:  
Neville Hughes  
600853**

**JOHN ROBERTS**



**Paentiwr  
Papurwr  
Teilsiw**

**Symudol: 07747 628650  
Ffôn: 01248 600995**



**Posh Paws  
Tacluso Cŵn**

**Busnes lleol**

Prynhawniau neu Nosweithiau  
4.00 - 10.00  
Dydd Sul 8.00 a.m - 4.00 p.m.  
Gwasanaeth casglu a danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen  
**01248 671382** neu **07935324193**  
Ebst: juliaposhpaws@btinternet.com

**◆◆◆ LONDIS  
BETHESDA**  
☎ 01248 605566  
Archfarchnad hwylus  
Gwasanaeth personol  
gyda'r pwyslais ar y cwsmer  
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy  
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr  
7 diwrnod yr wythnos

**Blodau Racca**  
PENISARWAUN  
*Planhigion gardd a basgedi crog o'r  
ansawdd gorau  
- gan hogan o Rachub*  
**Ffôn: 01286 870605**

**Gareth Williams**  
Trefnydd Angladdau  
Crud yr Awel  
1 Ffordd Garneddwen  
Bethesda  
Ffôn: (01248) 600763 a 602707  
GWASANAETH DYDD A NOS

**Ymgymwrwr adeiladu a  
gwaith saer**  
**Ronald Jones**  
Bron Arfon, Llanllechid  
Bethesda  
☎ 01248 601052

**SIOP BARBWR**  
**MR TOM**  
78 Stryd Fawr  
Bethesda  
Torri gwallt Dynion a Phlant  
gan Helen (hogan leol)  
Hefyd Gwelyau Haul

**STEPHEN  
JONES**  
†  
**TREFNYDD  
ANGLADDAU**

**Hefyd ymgymryd  
â gwaith cerrig beddi:  
adnewyddu neu o'r newydd**  
Gweithdy Pen-y-bryn  
Cefn-y-bryn, Bethesda  
Ffôn: gweithdy 600455  
gartref 602455  
personol 07770 265976  
Bangor 360001  
Gwasanaeth personol ddydd a nos


**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**  
**A.G.L.**  
Lloriau  
Arbenigwr mewn gosod a  
selio lloriau coed caled,  
adnewyddu lloriau  
gwreiddiol a chyweirio  
lloriau sydd wedi eu  
difrodi.  
Andrew G. Lomozik B.A.  
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**AUR**  
**CLOGAU**  
Gostyngiad o  
**20%**  
Os nad mewn sêl eisoes

**Siswrn Arian**  
**Trin Gwallt Merched,  
dynion a Phlant**  
Vivien, Amanda, Jenny a Nicola  
GEMWAITH BO-WEN  
GWASANAETH TYLLU CLUSTIAU  
☎601888

**C.L. JONES**  
**Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu**  
Bethesda 01248 600045 Cludiant am ddim yn lleol Mynytho 01758 730768  
Caernarfon 01286 676070 Stoc helaeth ac amrywiol Llanrwst 01492 640794  
Llangefni 01248 751677 Croeso i gyfrifon masnachol Siop yn 01492 640794  
Llanrwst  
Staff cyfeillgar a phroffesiynol  
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y.  
Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni

# Croesair Ionawr 2012



**AR DRAWS**

1. - --- lliwgar. Oes crochan o drysor wrth ei droed ? (1,3)
4. "--- am y cyfiawn Iesu.." (3)
6. Dethlir y gemau Olympaidd eleni drwy gario ---- o un safle i'r llall. (4)
8. Mae sêr yn gwneud hyn, a llygaid hefyd wrth weld rhyfeddod. (6)
9. Cneuen fawr i'w hongian ar linyr i chwarae gêm o daro. (6)
10. Dyna oedd "...y morwr tal a'r chwerthiniad iach..." (8)
11. Rhidyll. (4)
12. Beth welir "ar ben y gamfa wen" ? (4,3,2,4)
17. Mae'r petha odia yn cymysgu weithiau wrth i chi wneud syms. (4)
19. March chwim yn rasio'n dda. Dwi'n drysu i chwilio am air i'w ddisgrifio. (8)
22. Yn anffodus, gweithgaredd mwyaf dinistriol y cyfnodau '14 i '18 a '39 i '45. (6)
23. Mae Mot yn tagu. Faint o bwddin gafodd o ? (6)
24. Enw'r llewes ddof yn y ffilm enwog "Born Free" (1966). (4)
25. Yr oedd un yn cynnwys saith o wartheg tewion, a'r llall efo saith o wartheg tenau. (3)
26. Ydi'r eneth yma ar y silff lyfrau efo Eysyllt a Luned Bengoch ? (4)

5. Cer i fyd eglwysig i fyw. (7)
6. Hen goel oedd fod ---- annwyd neu ---- stumog yn dda os oedd o'n ddrwg ei flas. (5)
7. Cael ffit fawr wrth argraffu llyfrau ? (7)
10. Mae'n dda i Gymro ond yn wallgof i Sais. (3)
13. Â'n dwylo gallwn fod yn ddinistriol iawn. (7)
14. Mae traddodiad yn dweud mai hon oedd mamiaith yr Iesu. (7)
15. Cymysgfa i ddod o'r lan sy'n ddifyr dros ben. (7)
16. Hoff ddioid Huw Jones, S4C, efallai ? (3)
18. Drama ganu ! (5)
20. Sut faen sy'n gwylio'r fangre yn y curlaw mawr a'r gwynt ym melin Trefin? (5)
21. Dywedir fod pianydd yn rhedeg ei fysedd ar hyd yr ----. (5)

**ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2011**

- AR DRAWS** 1. Yn y bore; 5. Ddwg wy; 8. Gwair; 9. Enw drwg; 10. Mis Rhagfyr; 12. Sol; 13. Gwneud; 14. Perfedd; 17. Efa; 18. Canhwyllau; 20. Fel angel; 21. Ormod; 23. Losin; 24. Uchelwydd.

**ILAWR**

2. Ai yn y boreu y mae dilledyn yn mynd yn flêr ac yn fregus ? (5)
3. Yli, marw mae dail yr hydref er eu holl brydferthwch. (7)
4. Tynged Dick Turpin, Ruth Ellis a'r Hwntw Mawr. (5)

- ILAWR** 1. Ymgom; 2. Yma; 3. Ochrgamu; 4. Ehedfa; 5. Ddaw yr; 6. Gwrthsefyll; 7. Ymgeledd; 11. Santa Clos; 13. Gaeafol; 15. Enw bore; 16. Yn olau; 18. Cangen; 19. Un dydd; 22. Mew.

**Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.**

Llai nag arfer wedi cystadlu yn Rhagfyr, - prysurdeb y Nadolig mae'n siwr, ond rydan ni am ddal ati eleni eto gan fod rhai ohonoch wedi bod mor garedig â dweud eich bod yn edrych ymlaen at ddatrys y croesair bob mis. 'Perfedd' oedd ateb y cliw "mynydd ger Bethesda", ond un neu ddau yn cynnig atebion mwy amlwg fel Tryfan a Carnedd. Ar wahan i hynny roedd yr atebion yn gywir iawn. Ond y cynnig perffaith cyntaf o'r het am y wobr oedd eiddo Dilys A. Pritchard-Jones, Ynys, Abererch, Pwllheli LL53 6YP. Cafwyd atebion cywir hefyd gan Dulcie Roberts, Gareth a Sara Oliver, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Rita Bullock, Bethesda; Huw Parry Jones, Dolgarrog; Dilys Parry, Heulwen Evans, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas.

Gyda llaw, dim ond dwy ohonoch gafodd yr holl groeseiriau yn gywir am y flwyddyn gyfan, - dwy Ddilys, sef Dilys Parry, Rhiwlas a Dilys A. Pritchard Jones, Abererch. Camp ardderchog yn wir. Llongyfarchiadau. Atebion erbyn 1 Chwefror i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD.

Enw:

Cyfeiriad:

## CHWILAIR MIS IONAWR

ENILLWYR Y GORON YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

A	E	L	I	S	W	Y	N	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B
V	N	I	D	D	R	Y	M	M	Y	L	I	W	G	B	H	X	J	U	I
S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X	V	A
D	S	E	N	O	J	R	I	N	I	E	D	D	N	A	P	A	U	Q	U
I	D	S	T	R	E	B	O	R	S	I	W	E	L	A	R	G	I	E	S
L	S	R	O	F	R	I	P	Y	Q	Z	G	R	H	C	U	M	W	N	O
Y	Y	E	A	R	I	A	R	S	Z	U	T	F	D	N	X	U	P	W	R
S	H	S	N	H	C	Q	H	U	W	E	H	O	O	Y	E	E	G	E	O
C	N	M	A	O	C	H	E	P	G	T	T	F	C	B	B	C	U	U	J
A	P	Y	L	M	J	I	T	M	I	D	R	V	V	D	C	B	B	F	R
D	N	F	W	O	O	I	R	G	J	A	A	V	I	I	R	R	X	I	M
W	H	A	T	N	T	H	R	P	N	O	S	V	K	O	P	W	R	C	M
A	K	C	F	B	I	O	T	R	G	R	C	X	I	V	R	Y	H	S	T
L	M	R	E	I	F	K	E	E	A	O	Y	J	D	E	Z	H	B	C	W
A	O	S	C	R	L	A	T	A	N	P	D	I	X	N	S	I	L	X	J
D	J	M	B	W	C	I	T	A	E	N	M	A	X	M	D	X	K	F	U
R	P	C	Q	O	Y	O	W	I	W	L	A	O	R	F	E	R	Z	Q	R
O	C	T	L	D	G	W	S	L	Z	E	B	E	T	A	A	J	K	J	C
L	N	O	L	R	V	O	G	J	P	W	P	G	S	O	C	W	J	J	Q
U	I	L	F	S	V	T	X	E	U	G	H	S	L	Z	E	A	F	X	I

**Y**N y chwilair hwn mae un o'r atebion wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Gwyddom fod Ll, Ch, Dd, Th ac yn y blaen yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân.) Atebion, gyda'r enw a'r cyfeiriad, os gwelwch yn dda, i André Lomozik, Zakopane, 7 Rhos-y-Coed, Bethesda, Gwynedd LL57 3NW, erbyn **4 Chwefror** Bydd gwobr o £5.00 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd neb wedi cael y 12 yn gywir rhoddir y wobr i'r sawl fydd wedi cael y nifer fwyaf yn gywir.

Mae ENW 12 O ENILLWYR Y GORON YN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU dros y blynyddoedd yn ymddangos y mis yma.


Dyma ni wedi dechrau blwyddyn arall. Diolch am eich dymuniadau da ar gyfer y flwyddyn newydd, a phob hwyl gyda'r chwilair y mis yma.

Dyma atebion Rhagfyr, gyda dyddiadau y bu'r eisteddfod yn ymweld â'r gwahanol lefydd. Aberdâr 1861, 1885. Bala 1967, 1997. Bangor 1874, 1890, 1915, 1971. Blaenau Ffestiniog 1898. Caerfyrddin 1867, 1974. Lerpwl 1884, 1900. Llandudno 1864. Merthyr Tydfil 1881. Pwllheli 1875, 1925, 1955. Rhydaman 1922. Tremadog 1872. Wrecsam 1912, 2011.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir. Elfed Bullock Maes y Garnedd Bethesda; Gwyn Owain Hughes, Gaerwen, Ynys Môn; Alwyn Roberts, Tregarth; Merfyn a Laura Jones, Tregarth; Alun Wyn Morris Gerlan; Meirion Williams, Manchester; Eira Hughes, Ffordd Ffrydlas Bethesda; Mair Jones, Victoria Place, Bethesda; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Elizabeth Buckley, Maes Ogwen Tregarth; Llewela O'Brien Bangor Uchaf; Mrs Glenys Clark Tregarth; Rosmary Williams, Tregarth; Huw Parry Jones, Dolgarrog; Gareth a Sara Oliver, Ty'n Clawdd Tregarth; Herbert Griffiths, Bro Syr Ifor, Tregarth; Eirlys Edwards, Central Garage Bethesda; Glenys Roberts, Hen Barc.

Enillydd Rhagfyr oedd. Alwyn Roberts, 2 Tan-y-Ffordd Tregarth, Bangor LL57 4PS. Llongyfarchiadau. Mae'r wobr ar y ffordd.

# Ysgol Pen-y-bryn yn y 1950au



Ydych chi'n nabod rhywun yn y llun yma o blant Ysgol Pen-y-bryn (yn y 50au?). Diolch i Mrs Jean Thomas (Griffiths gynt), 39 Abercaseg, am anfon y llun atom. (Mae Jean yn eistedd ar y gadair - y pumed ar y chwith).

## Y Frân Dyddyn

Mae hon yn hirlwm lonawr yn aros  
I'r lled-farw gwerthfawr  
Yno i fyw ei olaf awr  
Ar rodfa drodd yn ddrudfawr.

## Plentyndod

Yr ifanc rai'n yr afon  
Oeddem ni'n ei lli mor llon,  
Yno'n braf drwy'r haf a'i hin  
Yn nofio'n ein cynefin,  
A hyn oedd ein nefoedd ni  
Yr iachus rai yn trochi.

Mae'n wych nawr edrych yn ôl  
I ffynnon y gorffennol,  
Yn ifanc mewn hen afon,  
Yn ddihid yn nyfroedd hon,  
Yno'n rhan o'r comin rhydd  
Ym manau gwylt y mynydd.

Herio yn nŵr ei erwau  
Fuon ni a gwir fwynhau  
Yno'n dal gyda'n dwylo  
Lithrig rai ar frig y gro  
A gollwng i'w tagellau  
Drwy eu pen hir frwynen frau.

Yno'n llesg yn ddi-esgid  
Yn yr hwyr heb unrhyw hid  
Yn edrych tuag adref  
A sŵn y nos yn y nef.  
Yno o'i fyd gwenu fu  
Ein haul cyn mynd i'w wely.

Dafydd Morris

**Tony Twomey** **Peintiwr ac Addurnwr Trwyddedig**

**Gwneir unrhyw waith, mewnol ac allanol.**

Ffôn Symudol: 07796 156829  
Tŷ: 01248 602039



**Hysbysebwrch Yma!**

**Ffoniwch**

**01248 600853**

Rydym yn hapus iawn i dderbyn

# Cleifion Newydd









Mae Deintyddfa Gwynfryn a Chanolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor yn falch iawn o dderbyn cleifion newydd. Yn Neintyddfa Gwynfryn rydym yn cynnig deintyddiaeth gyffredinol ac ataliol a'n nod yw darparu gofal deintyddol eithriadol i bob un o'n cleifion er mwyn sicrhau fod eich ceg yn iach am oes.

Fel estyniad o'r ddeintyddiaeth gyffredinol ac ataliol sydd ar gael yn Neintyddfa Gwynfryn, mae Canolfan Gosmetig a Mewnblaniadau Bangor wedi ymrwmo i ddarparu'r diweddaraf i chi ym maes Deintyddiaeth Gosmetig. Os yw eich dannedd wedi torri, yn wahanedig, yn gam neu wedi newid lliw neu os mai dim ond eisiau gwên hardd, ddeniadol ydych chi, gallwn ni roi'r wên a ddymunwch i chi. Gall ein deintyddion cosmetig tra chymwys eich helpu i benderfynu sut i wella eich gwên, gan eich galluogi i deimlo'n well am y modd yr ydych chi'n edrych.

APWYNTIADAU BRYG AR GAEL AR YR UN DIWRNOD

MAE EIN STAFF YN DDWYIEITHOG

CYFLEUSTERAU CREDYD DI-LOG AR GAEL PAN WNEIR CAIS.  
YN AMODOL AR STATWS, BYDD TELERAU AC AMODAU'N BERTHNASOL.

GWEDDNEWID GWÊN  
GWYNNU DANNEDD  
ARGAENAU  
MEWNBLANIADAU  
FFRAMIAU DANNEDD CLIR INVISALIGN®  
LLENWADAU GWYN  
CORONI A PHONTIO  
DANNEDD GOSOD COSMETIG  
TAWELYDDU  
TRINIAETHAU ESTHETEG I'R WYNEB

DEINTYDDFA GWYNFRYN, FFORDD CAERGYBI, BANGOR, GWYNEDD, LL57 2EE  
**FFÔN: 01248 372 888 WWW.BANGORDENTISTS.CO.UK**



# CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2012

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 1 Mawrth, ac mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn sic o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

## AR DRAWS

- 1 Enw awdur y nofel *Pantglas* (7, 6)  
 7 a 28 ar draws.  
 Argraffiad newydd o gerddi Waldo a gyhoeddwyd yn 2010 (4, 4)  
 9 a 29  
 Byd o *Beryglon*: 1. *Perygl ar \_\_\_\_\_*, nofel gyffrous i ddarllenwyr 9–12 oed (4, 4)  
 10 *Bachgen yn \_\_\_\_\_*, nofel gan Morris Gleitzman (1, 3)  
 12 Enw cyntaf awdur *Hen Blant Bach*, Nofel y Mis Ebrill 2011 (4)  
 13 *Siôn Bach \_\_\_\_\_*, cymeriad yng Nghyfres y Dyn Papur Newydd (5)  
 14 Enw canol awdur y gyfrol o gerddi *Amheus o Angylion* (5)  
 16 *Merch \_\_\_\_\_*, nofel gan Sonia Edwards (4)  
 20 Hanes y cymeriad lliwgar Russell Jones, \_\_\_\_\_ *fy Myd* (5)  
 21 Gweler 22 i lawr  
 24 *Y Dewin \_\_\_\_\_*, stori i blant gan Margaret Davies yn y gyfres *Darllen Stori* (4)  
 26 Enw cyntaf awdur *O Dro i Dro*, casgliad o bedair dawn (5)  
 27 Enw cyntaf cantores enwog, gwrthrych cyfrol gan Ildid Anne Jones (5)  
 28 Gweler 7 ar draws  
 29 Gweler 9 ar draws  
 30 \_\_\_\_\_ *Deuddeg*, cyfrol o hwiangerddi (4)  
 32 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Blwyddyn Fan Hyn a Fan Draw* (4)  
 34 Bardd Plant Cymru 2010–2011 (4, 3, 6)

## I LAWR

- 1 Enw llawn Appy, y rheolwr pêl-droed a gyhoeddodd ei hunangofiant yn 2011 (7, 8)  
 2 *Dolenni \_\_\_\_\_*, casgliad o ryddiaith gan Owen Martell (3)  
 3 Cyfrol gan Alan Llwyd – *Sut i Greu \_\_\_\_\_* (5)  
 4 Enw cyntaf arlunydd ac awdur y gyfrol *Mynyddoedd Eryri* (3)  
 5 *laith y \_\_\_\_\_* – *Dyfyndadau Ynglŷn â'r laith Gymraeg* gan Gwilym Lloyd Edwards (6)  
 6 Hunangofiant Sharon Morgan (5, 3, 7)  
 8 Cyfenw golygydd y gyfrol *Sachaid o Limrigau* (5)  
 11 Cyfrol liwgar o gerddi doniol i blant gan 34 ar draws (3)  
 12 Enw cyntaf un o brif gymeriadau'r gyfrol *Dyddiadur Dripsyn* (4)  
 15 Enw cyntaf awdur y gyfrol ddoniol *Pwy Faga Ddefed?* (4)  
 17 *Theleri \_\_\_\_\_*, hunangofiant 34 ar draws (3)  
 18 *Rhag Pob \_\_\_\_\_* – Cofiant Gwynfor Evans gan Rhys Evans (4)  
 19 Enw cyntaf awdur *Bydoedd – Cofiant Cyfnod*, Llyfr y Flwyddyn 2011 (3)  
 22 a 21 ar draws  
 Hunangofiant cantores dalentog o Lanerfyl – rhif 34 yng Nghyfres y Cewri (4, 5)  
 23 Enw cyntaf awdur y gyfrol *Neb Ond Ni* – enillydd y Fedal Ryddiaith 2011 (5)  
 25 Nofel ar gyfer yr arddgau ac oedolion yng Nghyfres y Dderwen gan Lleucu Roberts (6)  
 26 *Rhy \_\_\_\_\_* – Storiâu Byrion gan Bobi Jones (3)

Cofiwch mai un llythrennau yw CH, DD, NG, LL, RH, TH

- 28 Pedwaredd nofel Manon Steffan Ros (5)  
 31 Cyfaill Jos yn *Rebels Ceir Rasio* a rhai o gyfrolau eraill cyfres Bechgyn am Byth (3)  
 33 *Traed \_\_\_\_\_*, nofel gan Mari Emlyn (3).

Gall chwilio gwefan [www.gwales.com](http://www.gwales.com) eich helpu gyda'r atebion

**gwales.com**  
llyfrau ar-lein

Cofiwch Brynu  
Calendr Llais Ogwan



£3.50 yn y siopau lleol

neu ffoniwch

Dafydd Fôn Williams

01248 601583

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2012. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

## Clwb Apêl Eryri 2012 Dyffryn Ogwen

### Enillwyr Ionawr:

- £40.00 Moira Wynn Farnworth, 3 Bryn Eglwys, St. Ann's, Bethesda. (162)  
 £24.00 Lowri Williams, 8 Warwick Street, Grangetown, Caerdydd. (123)  
 £15.00 Linda Brown, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda. (7)

# GAIR O'R DOSBARTH

## Ysgol Dyffryn Ogwen

### Te Prynawn



Ar brynawn dydd Iau, 15fed o Ragfyr, bu dros gant o aelodau o gymdeithasau lleol yn yr ysgol yn derbyn lluniaeth ac adloniant gan ddisgyblion yr ysgol. Mae'r cyfan yn cael ei baratoi gan ddisgyblion blwyddyn 10 sy'n dilyn y cwrs Lletygarwch. Y disgyblion sy'n paratoi'r cyfan gan anfon y gwahoddiadau allan, gwneud y bwyd ymlaen llaw, gosod a pharatoi'r byrddau a gweini yn ystod y parti. Derbyniwyd llu o negeseuon yn diolch i'r ysgol am y croeso. Cafwyd eitemau cerddorol hefyd gan nifer o ddisgyblion yr ysgol. Yr oedd yn braf iawn cael croesawu pawb i'r ysgol.



### Clwb Gwyddoniaeth Ysgol Dyffryn Ogwen

Ar 13eg Rhagfyr fe gynhaliwyd yr ail sesiwn o'r Clwb Gwyddoniaeth. Fe ddysgodd Mrs Francine Thomas i'r disgyblion sut i ddylunio a chreu awyren bapur a fyddai'n aros yn yr awyr am amser hirach na'r awyrennau papur traddodiadol. Dyluniodd pob disgybl ei awyren bapur ei hun ac yna yn y neuadd fe amserwyd pob awyren yn hedfan, gyda'r bwriad o dorri record y byd wrth gwrs! Yn anffodus ni thorrwyd y record o 27.6 eiliad, yr amser hiraf a fesurwyd gennym oedd 3.72 eiliad, gan Iolo Tossell, yn ail oedd Chloe Davies gydag amser o 2.88 eiliad ac yn drydydd roedd Aled Owsianka-Roberts gyda 2.78 eiliad. Mae o'n anoddach nag yr ydych chi'n feddwl!

### Ymdeoliad

Y tymor diwethaf ymddeolodd Mrs Brenda Hughes ar ôl 9 mlynedd fel llyfrgellydd yr ysgol. Diolch iddi am ei gwaith yn yr ysgol. Bydd colled ar ôl ei chwarteisi a'i chymwynasgarwch.

### Perfformiad

Bu Cwmni Theatr 'Walking Forward' yn yr ysgol yn rhoi perfformiad o 'Deadly Mates' i ddisgyblion blwyddyn 11 a rhai o flwyddyn 12.

Diogelwch ar y ffyrdd oedd thema'r cyflwyniad, gyda phwyslais ar beryglon gyrru'n gyflym, a bod yn deithiwr mewn car sy'n cael ei yrru'n wyllt. Roedd yn gynhyrchiad caled iawn o ran ei neges, ac yn cynnwys rhannau aml-gyfrwng gyfranwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 11 y llynedd.

### Nawdd

Derbyniwyd nawdd eleni gan nifer o gwmnïau lleol ar gyfer gwobrau'r Cyfarfod Gwobrwyo – So Chic, Watkin Jones, Delsol, Ffenestri Cymru, Bradite, Blizzard Protection Systems, Mortgage Buyers Advice Centre, SCW Management Services, Garej Pandy, Siswrn Arian, Jones a Whitehead, Meithrinfa Ogwen, Ystad y Faenol a Chwmni Parry, Davies, Clwyd-Jones a Lloyd. Mae'r ysgol a'r Llywodraethwyr yn ddiolchgar iawn i'r cwmnïau yma am eu cefnogaeth.

### Afon Ogwen



Dyma lun hyfryd ac anarferol o Afon Ogwen wedi ei dynnu gan Laura Parry. Mae Laura yn astudio ffotograffiaeth Lefel A yn Ysgol Dyffryn Ogwen, ac un dasg a osodwyd iddi oedd tynnu lluniau o Afon Ogwen a bywyd natur o'i hamgylch.

### Eisteddfod Dyffryn Ogwen



Pedwarawd Ysgol Dyffryn Ogwen a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth ysgolion uwchradd yn Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen yn ddiweddar. O'r chwith i'r dde: Sioned Francis, Alice Boggs, Mari Gwyn a Siân Mererid.

## Ysgol Rhiwlas

### Gwobr Efydd

Llongyfarchiadau mawr i'r ysgol ar ennill Gwobr Efydd Ysgolion Gwyrdd. Mae'r plant wrthi'n brysur erbyn hyn yn edrych ar ffyrdd i arbed ynni ac yn sicrhau bod pawb yn diffodd goleuadau wrth adael y dosbarthiadau. Da iawn chi blant.

### Y Goedwig

Bu'r babanod allan yn y goedwig yn chwilota am sêr cudd. Bu'n gyfnod llawn hwyl ac antur. Braf oedd gweld y plant wedi gwisgo mewn wellingtons a chotiau glaw yn mwynhau eu hunain cymaint.

### Brysiwch Wella

Anfonwn ein cofion cynnes at Mrs Davies, Anti Emma, Anti Yvonne, Anti Shân a Gwawr gan obeithio y byddant yn gwella'n fuan.

## Sioe Nadolig



“Llwyddiant ysgubol” meddai pawb wrth adael y sioe ddydd Mercher, Rhagfyr 7fed. Roedd sioe'r ysgol yn llawn cyffro a'r holl blant wedi perfformio'n wych. Da iawn chi blant. Diolch i Mrs Williams, Mrs Jones a Mrs Goosey am eu gwaith caled.

## Parti Nadolig

“Pwy sy'n dwad dros y bryn yn ddistaw, ddistaw bach?” Wel, ia – Siôn Corn, ac roedd ganddo amser i alw yn yr ysgol gydag anrheg i bob plentyn. Diolch Siôn Corn. Diolch hefyd i ferched y gegin am baratoi gwledd ar ein cyfer.



## Panto

Miri mawr! Mwynhaodd pawb y panto Aladdin yn Venue Cymru. Roedd y perfformiad 3D yn wefreiddiol. Rhaid canmol a llongyfarch y plant am eu hymddygiad arbennig yno.

## Yr Eglwys

Cafwyd gwasanaeth yn eglwys St Cedol, Pentir, i ddechrau dathliadau Nadolig yr ysgol. Braff oedd gweld yr eglwys yn llawn. Diolch am y croeso cynnes.

## Cristingl

Diolch i Jenn am alw draw i'r ysgol i sôn am Cristingl a helpu'r plant i gynllunio a gwneud yr addurn hardd.

## Uganda

Dangosodd Mrs Green luniau o'i chyfnod yn Uganda. Bu'n gweithio i elusen “Child of Hope” yn slym Namatala. Roedd pawb wedi synnu gweld mor dlawd oedd y bobl a'u bod yn byw mewn cytiau mwd. 'Roedd y plant yn cymharu eu cartrefi â chartrefi plant Namatala ac yn sylweddoli mor ffodus ydynt.

## Ysgol Bodfeurig

## Ffair Nadolig

Diolch i bawb ddaeth i'n ffair Nadolig. Cawsom noson lwyddiannus iawn gan wneud elw da ar gyfer yr ysgol. Diolch hefyd i Sion Corn ddaeth yr holl ffordd i weld plant yr ysgol!

## Cyngerdd Nadolig



Dyma blant ieuengaf yr ysgol yn canu fel sêr.

Ar noson stormus iawn daeth trigolion Mynydd Llandygái ynghyd yn y Neuadd Goffa ar gyfer cyngerdd Nadolig yr ysgol. Cafwyd noson arbennig ymysg Mair, Joseff a phawb arall o stori'r geni. Diolch i'r plant am eu gwaith caled yn dysgu eu geiriau ac i bawb ddaeth i'n cefnogi ar y noson!

## Cystadleuaeth Gymnasteg

Diolch yn fawr i dîm gymnasteg yr ysgol am gynrychioli'r ysgol mewn cystadleuaeth yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Er na chafwyd gwobr gwnaeth pawb eu gorau a chafodd pawb ddiwrnod gwych!

## Cystadleuaeth Diogelwch y Ffyrdd

Llongyfarchiadau i Gwydion a Hazel o flwyddyn 2 am ennill cystadleuaeth diogelwch y ffyrdd. Roedd yn rhaid iddynt edrych ar safle gwê Carys Ofalus cyn ateb cwestiwn am fod yn ddiogel ar y ffordd yn y tywyllwch. Enillodd y ddau dortsh arbennig.



Dyma lun o Hazel a Gwydion gydag Anti Paula – Swyddog Diogelwch y Ffyrdd

Mwy o newyddion yr Ysgolion dros y dudalen!

# Ysgol Llanllechid

## Partïon

Cafodd pob dosbarth barti Nadolig ardderchog unwaith eto eleni. Aeth ambell i ddsbarth draw i Blas Ffrancon a chawsant groeso ardderchog gan Siôn Corn yno. Cafodd y dosbarthiadau eraill bartïon yn yr ysgol, ac wrth gwrs daeth Siôn Corn atom hefyd. Diolch i bawb am helpu, ac i Siôn Corn am yr holl anrhegion!

## Pili Palas

Aeth y Dosbarth Meithrin draw i ‘Pili Palas’ i weld Siôn Corn, ac i gael hwyl a sbri yng nghanol creaduriaid arbennig a diddorol tu hwnt! Roedd y plant bach i gyd wedi mwynhau’r profiad yn fawr!

## Pantomeim

Aeth Dosbarthiadau Blynyddoedd 1 a 2 i Neuadd J.P. ym Mangor i wylïo perfformiad gwych o’r panto Cymraeg ‘Madog a’r Amerig’. Roedd y plant wedi eu hudo gan y set lliwgar, y canu hwyliog, y dawnsio bywiog a’r jôcs doniol oedd yn cael eu perfformio gan lu o gymeriadau diddorol! Bendigedig!

## Cyngerdd Adran y Babanod

Bu disgyblion yr ysgol yn perfformio sawl sioe Nadolig eleni! Cafwyd stori’r ‘Geni’ a charolau hyfryd gan y Dosbarth Meithrin ‘Ffrindiau’r Wyddor’ oedd cyngerdd y Dosbarth Derbyn, lle cawsom gwrdd â nifer o gymeriadau o raglen o’r un enw ar y cyfrifiadur: N am Neli Neidr, A am Arthur Arth, D am Daniel Draenog, O am Olwen Octopws, L am Lowri Lindys, I am Iola Iâr, a G am Gari Gorila. Wrth gwrs, neges y sioe oedd NADOLIG LLAWEN!! Cyflwynodd Blynyddoedd 1 a 2 sioe am hen gawr blin oedd yn gwrthod helpu plant bach tlawd i gael parti Nadolig. Llwyddodd criw o hen bobol i wneud iddo chwethin yn y diwedd drwy ddawnsio rap a chafodd pawb barti hwyliog dros ben! Rhaid canmol yr holl blant am ddsygu cymaint o ganeuon a sgriptiau, ac am berfformio’r cyfan mor wych!

## Cyngerdd yr Adran Iau

‘Bargen y boios’ oedd teitl y sioe gerdd yr Adran Iau eleni. Cafwyd dau berfformiad egniol a’r neuadd yn llawn. Roedd y fam, y nain a’r ddau hogyn ifanc golygus angen help y dyn od a’i anrhegion hudol i drechu’r baedd a’r cewri cyn swyno’r ddwy dywysoges hardd. Roedd yna gymeriadau lu yn eu gwisgoedd rhyfeddol. Diolch i’r holl rieni a ffrindiau’r ysgol am ddod draw i gefnogi’r plant a diolch iddynt hefyd am ddarparu gwisgoedd gwerth chweil a gwreiddiol.



Noddfa i gymeriadau lu – y coed wrthi’n ymarfer.

## Gwobr Antur Awyr Agored

Mae’r ysgol wedi derbyn Gwobr Efydd gan Y Bartneriaeth Awyr Agored am ymwneud â gweithgareddau megis beicio, hwylio, cerdded mynyddoedd a ffitrwydd. Llongyfarchiadau i’r holl ddisgyblion am eu brwdfrydedd ym myd gweithgareddau awyr agored.



Gwobr y Bartneriaeth Awyr Agored i Ysgol Llanllechid

## Tren Llanberis

Ho, ho ho! Mae’n Nadolig unwaith eto, felly aeth disgyblion y Dosbarth Derbyn draw i Lanberis i weld y dyn yn y siwt goch, - ar y tren! Roedd yn brofiad gwych i’r plant, - pawb yn cael anrheg ganddo, a phob un yn addo bod yn blentyn da! Gawn ni weld!

## Papur Newydd

Diolch i’r Clwb Menter am ei holl waith drwy’r tymor yn creu a gwerthu pob math o nwyddau. Diolch hefyd am y papur newydd gwerth chweil ‘Byd Llan’ a gylchredwyd i rieni a ffrindiau’r ysgol ar ddiwedd y tymor. Diddorol dros ben – diolch i chi am eich gwaith o dan arweiniad Ms Hanna Huws.



Rhai o’r Clwb Menter yn paratoi i wneud ‘ymchwil marchnad’

## Clwb yr Henoed

Fe ddaeth rhai o aelodau Clwb yr Henoed i’r ysgol i fwynhau cyflwyniadau Nadoligiadd gan ddisgyblion yr ysgol a mwynhau paned a mins pei. Cafwyd ymddiddan a hwyl rhwng y disgyblion â’r aelodau ac roedd yn hyfryd eu gweld yn yr ysgol eto y Nadolig hwn. Diolch i ferched y gegin am baratoi’r lluniaeth ar eu cyfer.



Croeso hwyliog Nadoligaidd i’r henoed yn Ysgol Llanllechid

## Bore Coffi

Cafwyd ‘Bore Coffi Nadolig’ llwyddiannus iawn yn y Clwb Criced eleni. Trefnwyd y cyfan gan y Gymdeithas Rieni dan arweiniad Mrs Lowri Roberts a Mrs Iona Robertson. Cafwyd ymweliad arbennig gan Siôn Corn ei hun, - ei sach yn llawn fel arfer! Llwyddwyd i godi £350. Diolch i Mr Dilwyn Owen a swyddogion y clwb Criced am eu cefnogaeth a’u cymorth.

## Plant Mewn Angen

Cawsom ddiwrnod ‘Plant Mewn Angen’ hwyliog dros ben, - y plant a’r oedolion yn dod i’r ysgol wedi eu gwisgo mewn dillad smotiog! Casglwyd £212 at yr achos da hwn eleni. Diolch i bawb.

## Cyngerdd Capel Jerusalem

Roedd yn ffrindiau’r ysgol yn perfformio sawl sioe Nadolig eleni! Cafwyd stori’r ‘Geni’ a charolau hyfryd gan y Dosbarth Meithrin ‘Ffrindiau’r Wyddor’ oedd cyngerdd y Dosbarth Derbyn, lle cawsom gwrdd â nifer o gymeriadau o raglen o’r un enw ar y cyfrifiadur: N am Neli Neidr, A am Arthur Arth, D am Daniel Draenog, O am Olwen Octopws, L am Lowri Lindys, I am Iola Iâr, a G am Gari Gorila. Wrth gwrs, neges y sioe oedd NADOLIG LLAWEN!! Cyflwynodd Blynyddoedd 1 a 2 sioe am hen gawr blin oedd yn gwrthod helpu plant bach tlawd i gael parti Nadolig. Llwyddodd criw o hen bobol i wneud iddo chwethin yn y diwedd drwy ddawnsio rap a chafodd pawb barti hwyliog dros ben! Rhaid canmol yr holl blant am ddsygu cymaint o ganeuon a sgriptiau, ac am berfformio’r cyfan mor wych!

## Piggery Pottery

Bu dosbarth Mrs Wilson ar ymweliad â ‘Piggery Pottery’ yn ddiweddar. Cafodd pob plentyn beintio ‘cadw-mi-gei’ mochyn, a chael llawer o hwyl. Mae’r moch lliwgar yn werth eu gweld!

**Disgo'r Urdd**

Aeth criw o ddisgyblion sy'n aelodau o'r Urdd draw i Ysgol Dyffryn Ogwen am noson o hwyl i ddisgo'r Urdd. Cafwyd noson hwyliog dros ben ac roedd pawb yn chwysu chwartiau ar ôl yr holl ddawnsio erbyn diwedd y noson!

**R.S.P.B.**

Bu dosbarthiadau Blynnyddoedd 1 a 2 ar daith i R.S.P.B. Conwy yn ddiweddar er mwyn cael gweld gwahanol gynefinoedd. Roedd gweithgareddau diddorol wedi eu paratoi ar ein cyfer a chafwyd y cyfle i ddysgu llawer am greaduriaid gwyllt ac adar y glannau. Roedd y plant i gyd wedi blino'n lân erbyn dychwelyd i'r ysgol, a sawl un wedi cael ambell i socsan!

**Plas Ffrancon**

Mae plant dosbarth Mrs Wilson (Blwyddyn 0) yn elwa o sesiynau wythnosol ym Mhlas Ffrancon y tymor hwn. Diolch yn fawr i staff Plas Ffrancon am ddarparu ar eu cyfer.

**Swyddog Tân**

Cafwyd sgwrs hynod addysgiadol i'r plant yn ddiweddar gan Swyddog Tân. Dysgodd y plant wersi pwysig dros ben. Diolch yn fawr.

## Ysgol Pen-y-bryn

**Mentergarwch**

Ar 2 Rhagfyr cawsom ein hail brynhawn mentergarwch Nadoligaidd. Unwaith yn rhagor roedd yn ddiwrnod llwyddiannus dros ben. Bu pob dosbarth yn brysur yn cynllunio, prasio, creu a gwerthu eu cynnyrch. Roedd pob dosbarth wedi bod yn coginio a chreu cardiau, addurniadau a thagiau anrhegion. Braff oedd gweld plant Abercaseg yn ymuno yn yr hwyl, aeth pob un oddi yma a'u dwylo yn llawn o gynnyrch Nadoligaidd a'u pocedi'n wag!! Cynigwyd i grefftwy'r lleol ymuno â ni yn ystod y prynhawn i werthu eu cynnyrch. Hoffem ddiolch y rhai a ddaeth a gobeithiwn eich bod wedi mwynhau cymaint â ni. Casglwyd £589.90! Mae hwn yn swm anhygoel a hoffem ddiolch o galon i chi i gyd am eich cefnogaeth!

**Gwasanaeth Nadolig yr ysgol**

Cawsom wasanaeth Nadolig hyfryd yng Nghapel Jerusalem ar Ragfyr 12fed. Diolch o galon i'r holl blant am eu gwaith caled, i'r staff am eu dysgu ac i chi rieni a gwarchodwyr am eich cefnogaeth fyddlon.

**Gwasanaeth Nadolig y Fro**

Ar Ragfyr 1af, cymerodd Ysgol Pen-y-bryn ran mewn cyngerdd Nadolig a oedd yn cynnwys holl ysgolion y fro. Cynhaliwyd y cyngerdd yng Nghapel Jerusalem. Braff oedd gweld plant yr ardal yn dod at ei gilydd i ddathlu'r adeg arbennig yma o'r flwyddyn. Pwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd a oedd wedi trefnu'r noson lwyddiannus a hoffem ddiolch iddynt am eu gwaith caled. Hoffem ddiolch yn ogystal i'r rhai sydd yn gyfrifol am y capel, am ganiatáu i ni ddefnyddio'r adeilad.

## Ysgol Abercaseg

**Ymweliad Celf.**

Aeth plant Blwyddyn 2 ar ymweliad addysgol i Oriel Mostyn Llandudno er mwyn gwneud gwaith arlunio.

**Gwasanaeth Carolau'r Urdd.**

Ar y cyntaf o'r mis cymerodd rhai o blant yr ysgol ran mewn Gwasanaeth carolau yng Nghapel Jerusalem. Roedd ysgolion eraill ein dalgylch hefyd yn cymryd rhan a chafwyd noson fendigedig.

**Cinio Nadolig.**

Ar Ddydd Gwener y 9fed, fe wnaethom fwynhau cinio Nadolig hyfryd. Diolch yn fawr i staff y gegin.

**Ymweliad â Lanberis.**

Aethom ar y tren bach yn Llanberis i weld y dyn ei hun - Siôn Corn a'i gorachod! Roedd yn garedig iawn a chafodd bawb anrheg ganddo.

**Amgueddfa Lechi.**

Rydym wedi bod ar ymweliad addysgol â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis.

**Cyngerdd Nadolig.**

Cynhaliwyd ein Cyngerdd Nadolig ar y thema 'Nadolig o amgylch y byd' ar y 13eg yng Nghapel Jerusalem. Cafwyd noson hwyliog ac roedd y plant i gyd wedi dysgu eu gwaith yn arbennig o dda. Da iawn chi blant!

**Cristingl.**

Ar Ddydd Iau'r 15fed, roeddem yn ddiolchgar iawn i'r Ficer, y Barchedig Nia Williams a ddaeth atom er mwyn cynnal gwasanaeth Cristingl. Roedd y plant Derbyn wedi paratoi oren yn arbennig ar gyfer yr achlysur.

**Gwaith y tymor.**

Byddwn yn brysur yn gweithio ar y themâu 'Cartrefi' ac 'Ein hardal ni' yn ystod y tymor ac yn edrych ar lechi a deunyddiau.

# Beth sydd ymlaen yn y Dyffryn?

**NEUADD OGWEN,  
BETHESDA**

**BOREAU  
COFFI** 

21 Ionawr Ysgol Abercaseg  
28 Ionawr Canolfan Rachub  
04 Chwefror Eisteddfod yr Urdd  
11 Chwefror Cŵn Tywys i'r Deillion  
18 Chwefror Eglwys Glanogwen  
25 Chwefror Plaid Cymru

(Bob bore Sadwrn am 10.00 o'r gloch)

**HYSBYSEBU YN  
RHAD AC AM DDIM  
YN Y LLAIS**

i gymdeithasau a mudiadau yn  
Nyffryn Ogwen  
Hyd at y maint yma  
(3" (750mm) X 1 golofn)

**Cysylltwch â'r Trefnydd  
Hysbysebion**

Neville Hughes (01248) 600853

**WU SHU KWAN**

**Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)**

Dosbarthiadau  
yng Nghanolfan  
Gymdeithasol  
Tregarth bob  
nos Fercher  
7.00 tan 9.00

Un sesiwn am ddim os dewch  
â'r hysbyseb hwn hefo chi

◆ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ◆  
Manylion gan Jake neu Elena  
Fitzpatrick - 01248 602416  
neu galwch heibio'r dosbarth


**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

**Paned a Sgwrs**  
Caffi Fitzpatrick 11.00 – 12.00  
Dydd Sadwrn cyntaf pob mis

**Peint a Sgwrs**  
Douglas Arms Bethesda  
20.00 – 21.00  
Trydydd Nos Lun pob mis

**Canolfan Gerdd William Mathias  
yn cyflwyno**

**CYNGERDD BEN**



Noson arbennig er cof am  
Ben Muskett

**Galeri, Caernarfon,  
Nos Wener, 3 Chwefror  
7.30pm**

Iwan Llewelyn-Jones, piano  
Côr Siambr CGWM  
(Arweinydd Jenny Pearson)  
Elinor Bennett (telyn)  
a Rhiannon Mathias (ffliwt)  
Glian Llwyd a Sioned Webb  
(deuawd piano)  
Patrick Rimes (ffidil)  
ac Evy King (piano)  
Lowri Preston (cello) ac  
Aeron Preston (piano)  
Gwenno Morgan (piano)

**Tocynnau ar gael o Galeri,  
Caernarfon 01286 685222**  
Pris: £10 a £5 i blant.  
Yr elw tuag at gronfa CGWM  
er cof am Ben

**NEUADD OGWEN  
BETHESDA**

**GYRFA CHWIST**

24 a 31 Ionawr  
14 a 28 Chwefror

am 7 o'r gloch

Dewch i fwynhau nosweithiau difyr

**Cylch Ti a Fi**



MUDIAD  
YSGOLION  
MEITHRIN

Bob Bore Mawrth  
9.15 - 10.45 am.

Canolfan Cefnfaes, Bethesda  
Dewch am baned a sgwrs, stori a gân

**Ffôn: 602032**

**CYMDEITHAS HANES  
DYFFRYN OGWEN**

7.00 o'r gloch  
yn Ffestri Capel Jerusalem,  
Bethesda


Nos Lun, 13 Chwefror  
Dr J. Elwyn Hughes  
"Y Bardd o Dŷ John Iorc"  
£1.50 wrth y drws neu  
am ddim i aelodau

**Gwefan Gymraeg i  
Fythynnod  
Gwyliau Gorau  
Cymru**

130+ o fythynnod 4\* a 5\*  
ar hyd a lled Cymru

Gallwch chwilio ac archebu eich gwyliau ar  
[www.ygorauogymru.co.uk](http://www.ygorauogymru.co.uk)

neu gysylltu â thim  
cyfeillgar Y Gorau  
o Gymru ar  
01650 511 101




**Dyddiadau'r Gaeaf**  
Yn Ystafell Fawr  
Capel Jerusalem  
(yn ymyl Spar)

**2012**  
11 Chwefror  
10 Mawrth


[www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market](http://www.facebook.com/marchnad-cynnyrch-lleol-ogwen-local-produce-market)

**SAER I.D.R. JOINERY**  
Busnes Ifanc Cymraeg Lleol

Am waith saer o safon uchel a  
phris diguro  
Cysylltwch ag IWAN



07553 977275



01248 602062

Cymwysedig a phrofiadol ym  
mhob agwedd ar waith saer.  
Dibynadwy a chyfeillgar.